



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 801 (Cy.110)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)
(Cymru) 2012

Gwnaed

10 Mawrth 2012

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Mawrth 2012

Yn dod i rym

30 Ebrill 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2012 No. 801 (W.110)

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Town and Country Planning (Development Management Procedure)
(Wales) Order 2012

Made

10 March 2012

Laid before the National Assembly for Wales

13 March 2012

Coming into force

30 April 2012

£15.50



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 801 (Cy.110)

2012 No. 801 (W.110)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a
Thref (Gweithdrefn Rheoli
Datblygu) (Cymru) 2012

The Town and Country Planning
(Development Management
Procedure) (Wales) Order 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn cydgrynhoi gydag addasiadau ddarpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 ("Gorchymyn 1995") ac offerynnau diwygio dilynol, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Mae'n cynnwys hefyd ddarpariaethau mewn perthynas â chymhwyso'r Gorchymyn hwn i'r Goron, sef darpariaethau tebyg i'r rheini yn erthygl 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol ac Addasiadau sy'n ymwneud â Thir y Goron) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") a oedd yn addasu Gorchymyn 1995. O ganlyniad, dirymir erthygl 4 o Orchymyn 2006.

This Order consolidates with modification the provisions of the Town and Country Planning (General Development Procedure) Order 1995 ("the 1995 Order") and subsequent amending instruments, in so far as they apply to Wales. It also includes provisions regarding the application of this Order to the Crown which are similar to the provisions, in article 4 of the Town and Country Planning (Miscellaneous Amendments and Modifications relating to Crown Land) (Wales) Order 2006 ("the 2006 Order") which modified the 1995 Order. Article 4 of the 2006 Order is consequently revoked.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gweithdrefnau mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio, ymgynoriadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio, penderfynu ceisiadau cynllunio, apelau, gorchymynion datblygu lleol, tystysgrifau cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad, cynnal cofrestrï o geisiadau cynllunio a materion cysylltiedig.

This Order provides for procedures connected with planning applications, consultations in relation to planning applications, the determination of planning applications, appeals, local development orders, certificates of lawful use or development, the maintenance of registers of planning applications and related matters.

Y prif newidiadau yw:

The main changes are:

- diweddarau neu ddileu cyfeiriadau at gyrff nad ydynt bellach yn bodoli, neu gyrff y trosglwyddwyd eu swyddogaethau i gyrff eraill cyn gwneud y Gorchymyn hwn (erthygl 14 a'r Tabl yn Atodlen 4).
- mae erthygl 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffurf a chynnwys ffurflenni cais am ganiatâd cynllunio. Yn benodol, mae'n darparu ar gyfer gwneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar

- the updating or removal of references to bodies where the bodies no longer exist or where, prior to the making of this Order, their functions have been transferred to other bodies (article 14 and the Table in Schedule 4).
- Article 5 makes provision for the form and content of application forms for planning permission. In particular, it provides for applications for planning permission to be

ffurflen safonol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

- mae erthygl 11 yn darparu bod tystysgrifau mewn perthynas â hysbysiadau o geisiadau am ganiatâd cynllunio i'w gwneud mewn ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- mae erthygl 14 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n dod o fewn categori a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4. Mae paragraff (v) o'r Tabl yn pennu, yn achos datblygiad sy'n cynnwys gosod arwyneb artiffisial, arwyneb o waith llaw, neu arwyneb cyfansawdd yn lle arwyneb o laswellt ar lain chwarae mewn maes chwarae, mai'r ymgynghorai priodol yw Cyngor Chwaraeon Cymru. Diwygir y diffiniad o "llain chwarae".
- mae erthygl 22, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer y cyfnodau o amser a ganiateir i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio, yn pennu'r hyn sy'n cyfansoddi cais dilys. Mae'r cyfnod o amser a ganiateir i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer penderfynu cais yn dechrau gyda'r diwrnod y ceir y cais.
- mae erthygl 27 yn darparu ar gyfer paratoi, gwneud a dirymu gorchmynion datblygu lleol gan awdurdodau cynllunio lleol, ac yn pennu'r math o ddatblygu na chaiff gorchmynion datblygu lleol roi caniatâd datblygu ar ei gyfer. Mae erthygl 29 yn darparu ar gyfer cofrestru o orchmynion datblygu lleol.

Ceir darpariaethau trosiannol ac arbedion (erthygl 33) yn ogystal â mân ddiwygiadau a diwygiadau drafftio.

Paratowyd asesiad effaith mewn cysylltiad â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau ohono gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

made on a standard form published by the Welsh Ministers.

- Article 11 provides that certificates in relation to notices of applications for planning permission are to be made in a form published by the Welsh Ministers.
- Article 14 makes provision for consultation before the grant of planning permission for development falling within a category set out in the Table in Schedule 4. Paragraph (v) of the Table sets out that, in the case of development which involves the replacement of the grass surface of a playing pitch on a playing field with an artificial, man-made or composite surface, the appropriate consultee is the Sports Council for Wales. The definition of "playing pitch" is amended.
- Article 22, which makes provision for the time periods in which local planning authorities must determine applications for planning permission, sets out what constitutes a valid application. The time period within which local planning authorities must determine applications begins with the day on which the application is received.
- Article 27 makes provision for the preparation, making and revocation of local development orders by local planning authorities and specifies the type of development for which local development orders cannot grant planning permission. Article 29 provides for registers of local development orders.

There are transitional provisions and savings (article 33) and minor and drafting amendments.

An impact assessment has been prepared in relation to this instrument. Copies may be obtained from the Planning Division of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 801 (Cy.110)

2012 No. 801 (W.110)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a
Thref (Gweithdrefn Rheoli
Datblygu) (Cymru) 2012

The Town and Country Planning
(Development Management
Procedure) (Wales) Order 2012

Gwnaed 10 Mawrth 2012
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 13 Mawrth 2012
Yn dod i rym 30 Ebrill 2012

Made 10 March 2012
*Laid before the National
Assembly for Wales* 13 March 2012
Coming into force 30 April 2012

CYNNWYS

CONTENTS

Rhan 1: Rhagarweiniol

Part 1: Preliminary

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

1. Title, commencement and application
2. Interpretation

Rhan 2: Ceisiadau

Part 2: Applications

3. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol
4. Ceisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl
5. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio
6. Ceisiadau mewn perthynas â thir y Goron
7. Datganiadau dylunio a mynediad
8. Darpariaethau cyffredinol ynglŷn â cheisiadau
9. Datganiad sydd i'w gyflwyno ynghyd â chais i awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cyfathrebiadau electronig penodol
10. Hysbysiadau o geisiadau am ganiatâd cynllunio
11. Tystysgrifau mewn perthynas â hysbysiadau o geisiadau am ganiatâd cynllunio
12. Cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio
13. Hysbysiad o atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru

3. Applications for outline planning permission
4. Applications for approval of reserved matters
5. Applications for planning permission
6. Applications in respect of Crown land
7. Design and access statements
8. General provisions relating to applications
9. Declaration to accompany application to a local planning authority for planning permission for certain electronic communications development
10. Notices of applications for planning permission
11. Certificates in relation to notices of applications for planning permission
12. Publicity for applications for planning permission
13. Notice of reference of applications to the Welsh Ministers

Rhan 3: Ymgynghori

14. Ymgynghoriadau cyn rhoi caniatâd
15. Ymgynghoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio: datblygiad brys y Goron
16. Sylwadau gan gynghorau cymuned cyn penderfynu ceisiadau
17. Hysbysu ynghylch ceisiadau mwynau

Rhan 4: Penderfynu

18. Cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru
19. Datblygiad sy'n effeithio ar briffyrdd presennol ac arfaethedig penodol
20. Datblygiad nad yw'n cydweddu â'r cynllun datblygu
21. Sylwadau sydd i'w cymryd i ystyriaeth
22. Cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau
23. Ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio
24. Hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad neu ddyfarniad mewn perthynas â chais cynllunio

Rhan 5: Apelau

25. Hysbysiad o apêl
26. Apelau

Rhan 6: Amrywiol

27. Gorchmynion datblygu lleol
28. Tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad

Rhan 7: Monitro

29. Cofrestr o geisiadau a gorchmynion datblygu lleol
30. Cofrestr o hysbysiadau gorfodi ac atal

Rhan 8: Cyffredinol

31. Cyfarwyddiadau
32. Defnyddio cyfathrebiadau electronig
33. Dirymiadau, darpariaethau trosiannol ac arbedion

Part 3: Consultation

14. Consultations before the grant of permission
15. Consultations before the grant of planning permission: urgent Crown development
16. Representations by community councils before determination of applications
17. Notification of mineral applications

Part 4: Determination

18. Directions by the Welsh Ministers
19. Development affecting certain existing and proposed highways
20. Development not in accordance with the development plan
21. Representations to be taken into account
22. Time periods for decisions
23. Applications made under planning condition
24. Written notice of decision or determination relating to a planning application

Part 5: Appeals

25. Notice of appeal
26. Appeals

Part 6: Miscellaneous

27. Local development orders
28. Certificate of lawful use or development

Part 7: Monitoring

29. Register of applications and local development orders
30. Register of enforcement and stop notices

Part 8: General

31. Directions
32. Use of electronic communications
33. Revocations, transitional provisions and savings

ATODLEN 1 —	Llythyr sydd i'w anfon at y ceisydd pan geir cais am ganiatâd cynllunio neu am dystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad	SCHEDULE 1 —	Letter to be sent to applicant on receipt of application for planning permission or for certificate of lawful use or development
ATODLEN 2 —	Hysbysiadau o dan erthyglau 10 a 25 (ceisiadau ac apelau)	SCHEDULE 2 —	Notices under articles 10 and 25 (applications and appeals)
ATODLEN 3 —	Cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio	SCHEDULE 3 —	Publicity for applications for planning permission
ATODLEN 4 —	Ymgynghoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio	SCHEDULE 4 —	Consultations before the grant of planning permission
ATODLEN 5 —	Hysbysiad pan wrthodir caniatâd cynllunio neu pan roddir caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau	SCHEDULE 5 —	Notification where planning permission refused or granted subject to conditions
ATODLEN 6 —	Hysbysiad o dan erthygl 27 o gynnig ar gyfer Gorchymyn Datblygu Lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio	SCHEDULE 6 —	Notice under article 27 of proposal for Local Development Order granting planning permission
ATODLEN 7 —	Tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad	SCHEDULE 7 —	Certificate of lawful use or development
ATODLEN 8 —	Offerynnau Statudol a ddirymir.	SCHEDULE 8 —	Statutory Instruments revoked.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 61(1), 61A, 62, 65, 69, 71, 74, 77, 78, 79(4), 188, 193, 196(4), 293A a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1A, ac Atodlen 4A i'r Ddeddf honno, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 88 a 122(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(3), sydd hefyd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(4), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 59, 61(1), 61A, 62, 65, 69, 71, 74, 77, 78, 79(4), 188, 193, 196(4), 293A and 333(7) of, and paragraphs 1 and 2 of Schedule 1A, and Schedule 4A to, the Town and Country Planning Act 1990(1) now exercisable by them(2) and in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 88 and 122(3) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004(3), also now exercisable by them(4), make the following Order:

- (1) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 61A(5) gan adran 40(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) ("Deddf 2004"). Amnewidiwyd adran 62 gan adran 42(1) o Ddeddf 2004. Amnewidiwyd adran 65 gan adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) ("Deddf 1991") a diwygiwyd hi gan adran 40 o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (p.8) a pharagraff 35 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno. Amnewidiwyd adran 69 gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno a diwygiwyd hi gan adran 190 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p.29) ("Deddf 2008") (gweler adran 69(9) am y diffiniad o "prescribed"); diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf 1991 a pharagraff 15 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (gweler adran 71(4) am y diffiniad o "prescribed"). Diwygiwyd adran 74 gan adrannau 19(1) ac 84(6) o Ddeddf 1991a pharagraff 17 o Atodlen 7 a Rhan I o Atodlen 19 i'r Ddeddf honno, diwygiwyd adran 77(4) gan adran 32 o Ddeddf 1991 a pharagraff 18 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, diwygiwyd adran 78 gan adran 17(2) o Ddeddf 1991, adrannau 40(2)(e) a 43(2) o Ddeddf 2004 ac adran 196(4) o Ddeddf 2008 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno (diwygiadau mewn grym at ddibenion penodol ac i ddod i rym at y dibenion sy'n weddill ar ddyddiad sydd i'w bennu, gweler O.S. 2009/400) ac adran 197 o Ddeddf 2008 a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 79(4) gan adran 32 o Ddeddf 1991 a pharagraff 19 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 188 gan adran 84 o Ddeddf 1991 a pharagraff 30 o Atodlen 7 a Rhan I o Atodlen 19 i'r Ddeddf honno. Amnewidiwyd adran 193 gan adran 10(1) o Ddeddf 1991, diwygiwyd adran 196(4) gan adran 32 o Ddeddf 1991 a pharagraff 33 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, mewnosodwyd adran 293A gan adran 82(1) o Ddeddf 2004, mewnosodwyd paragraffau 1 a 2 o Atodlen 1A gan adran 18(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) ac Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 40(4) o Ddeddf 2004 ac Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a gweler adran 118(3) o Ddeddf 2004.
- (3) 2004 p.5
- (4) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

- (1) 1990 c.8. Section 61A(5) was inserted by section 40(1) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5) ("the 2004 Act"). Section 62 was substituted by section 42(1) of the 2004 Act. Section 65 was substituted by section 16(1) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) ("the 1991 Act") and amended by section 40 of, and paragraph 35 of the Schedule to, the Agricultural Tenancies Act 1995 (c.8). Section 69 was substituted by section 118 of, and paragraphs 1 and 3 of Schedule 6 to, the 2004 Act and amended by section 190 of the Planning Act 2008 (c.29) ("the 2008 Act") (see section 69(9) for the definition of "prescribed"); section 71 was amended by section 16(2) of, and paragraph 15 of Schedule 7 to, the 1991 Act (see section 71(4) for the definition of "prescribed"). Section 74 was amended by sections 19(1) and 84(6) of, and paragraph 17 of Schedule 7 and Part I of Schedule 19 to, the 1991 Act, section 77(4) was amended by section 32 of, and paragraph 18 of Schedule 7 to, the 1991 Act, section 78 was amended by section 17(2) of the 1991 Act, sections 40(2)(e) and 43(2) of the 2004 Act and section 196(4) of, and paragraphs 1 and 3 of Schedule 10 to, the 2008 Act (amendments in force for certain purposes and to come into force for remaining purposes on a date to be appointed, see S.I. 2009/400) and section 197 of, and paragraphs 1 and 2 of Schedule 11 to, the 2008 Act. Section 79(4) was amended by section 32 of, and paragraph 19 of Schedule 7 to, the 1991 Act. Section 188 was amended by section 84 of, and paragraph 30 of Schedule 7 and Part I of Schedule 19 to the 1991 Act. Section 193 was substituted by section 10(1) of the 1991 Act, section 196(4) was amended by section 32 of, and paragraph 33 of Schedule 7 to, the 1991 Act, section 293A was inserted by section 82(1) of the 2004 Act, paragraphs 1 and 2 of Schedule 1A were inserted by section 18(7) of, and Schedule 4 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). Schedule 4A was inserted by section 40(4) of, and Schedule 1 to, the 2004 Act.
- (2) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); see the entry in Schedule 1 for the Town and Country Planning Act 1990 and see section 118(3) of the 2004 Act.
- (3) 2004 c.5
- (4) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, a daw i rym ar 30 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r holl dir yng Nghymru, ond os yw tir yn destun gorchymyn datblygu arbennig(1), pa un a wnaed y gorchymyn datblygu arbennig cyn neu ar ôl cychwyn y Gorchymyn hwn, bydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir hwnnw i'r cyfryw raddau yn unig, ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw addasiadau, a bennir yn y gorchymyn datblygu arbennig.

(3) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n gymwys i unrhyw ganiatâd yr ystyrir iddo gael ei roi o dan adran 222 o Ddeddf 1990 (dim angen caniatâd cynllunio ar gyfer hysbysebion sy'n cydymffurfio â rheoliadau).

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae "adeilad" ("*building*") yn cynnwys unrhyw adeiledd neu adeiladwaith ac unrhyw ran o adeilad fel y'i diffinnir yn yr erthygl hon, ond nid yw'n cynnwys unrhyw beiriannau neu beirianwaith nac unrhyw adeiledd o natur peiriant neu beirianwaith;

ystyr "arwynebedd llawr ("*floor space*") yw cyfanswm arwynebedd y lloriau mewn adeilad neu adeiladau;

mae i "cais AEA", "datblygiad AEA", "gwybodaeth amgylcheddol" a "datganiad amgylcheddol" yr un ystyron a roddir yn eu trefn i "EIA application", "EIA development", "environmental information" ac "environmental statement" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(2);

ystyr "caniatâd cynllunio amlinellol" ("*outline planning permission*") yw caniatâd cynllunio ar gyfer codi adeilad, a roddir yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol yn ddiweddarach mewn perthynas ag un neu ragor o faterion a gadwyd yn ôl;

mae "codi" ("*erection*"), mewn perthynas ag adeiladau fel y'u diffinnir yn yr erthygl hon, yn cynnwys estyn, newid neu ailgodi;

(1) Ystyr "gorchymyn datblygu arbennig" yw gorchymyn a wnaed o dan adran 59(3)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8).

(2) O.S. 1999/293, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/3099; mae offerynnau eraill sy'n diwygio ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

PART 1

Preliminary

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 and it comes into force on 30 April 2012.

(2) This Order applies to all land in Wales, but where land is the subject of a special development order(1), whether made before or after the commencement of this Order, this Order will apply to that land only to such extent and subject to such modifications as may be specified in the special development order.

(3) Nothing in this Order applies to any permission which is deemed to be granted under section 222 of the 1990 Act (planning permission not needed for advertisements complying with regulations).

Interpretation

2.—(1) In this Order—

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990;

"the 2004 Act" ("*Deddf 2004*") means the Planning and Compulsory Purchase Act 2004;

"access" ("*mynediad*"), in relation to reserved matters, means the accessibility to and within the site for vehicles, cycles and pedestrians in terms of the positioning and treatment of access and circulation routes and how these fit into the surrounding access network and "site" means the site or part of the site in respect of which outline planning permission is granted or, as the case may be, in respect of which an application for such a permission has been made;

"appearance" ("*ymddangosiad*") means the aspects of a building or place within the development which determine the visual impression the building or place makes, including the external built form of the development, its architecture, materials, decoration, lighting, colour and texture;

"building" ("*adeilad*") includes any structure or erection, and any part of a building, as defined in this article, but does not include plant or machinery or any structure in the nature of plant or machinery;

(1) "special development order" means an order made under section 59(3)(b) of the Town and Country Planning Act 1990 (c. 8).

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" gan adran 15(1) o Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)(1);

ystyr "datblygiad gwastraff" ("*waste development*") yw (a) unrhyw ddatblygiad gweithredol a fwriadwyd i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o drin, storio, prosesu neu waredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff, neu (b) newid defnydd perthnasol i drin, storio, prosesu neu waredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff;

ystyr "datblygiad mawr" ("*major development*") yw datblygiad(2) sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau(3);
- (b) datblygiad gwastraff;
- (c) darparu tai annedd—
 - (i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor; neu
 - (ii) pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
- (ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
- (d) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;

ystyr "drwy arddangos ar y safle" ("*by site display*") yw drwy osod yr hysbysiad ynghlwm yn gadarn wrth wrthrych a leolir ac a arddangosir mewn modd sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd weld yr hysbysiad a'i ddarllen yn hawdd;

ystyr "fflat" ("*flat*") yw mangre ar wahân a hunangynhwysol, a adeiladwyd neu a addaswyd i'w defnyddio fel annedd, ac sy'n rhan o adeilad ac wedi ei gwahanu'n llorweddol oddi wrth ran arall o'r adeilad hwnnw;

ystyr "graddfa" ("*scale*") yw uchder, lled a hyd pob adeilad arfaethedig o fewn y datblygiad, mewn perthynas â'i amgylchoedd;

"dwellinghouse" ("*tŷ annedd*") does not include a building containing one or more flats, or a flat contained within such a building;

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000 (general interpretation)(1);

"EIA application" ("*cais AEA*"), "EIA development" ("*datblygiad AEA*"), "environmental information" ("*gwybodaeth amgylcheddol*") and "environmental statement" ("*datganiad amgylcheddol*") have the same meanings respectively given in regulation 2(1) of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 1999(2);

"erection" ("*codi*"), in relation to buildings as defined in this article, includes extension, alteration or re-erection;

"flat" ("*fflat*") means a separate and self-contained set of premises constructed or adapted for use for the purpose of a dwelling and forming part of a building from some other part of which it is divided horizontally;

"floor space" ("*arwynebedd llawr*") means the total floor space in a building or buildings;

"landscaping" ("*tirlunio*"), in relation to a site or any part of a site for which outline planning permission has been granted or, as the case may be, in respect of which an application for such permission has been made, means the treatment of land (other than buildings) for the purpose of enhancing or protecting the amenities of the site and the area in which it is situated and includes—

- (a) screening by fences, walls or other means;
- (b) the planting of trees, hedges, shrubs or grass;
- (c) the formation of banks, terraces or other earthworks;
- (d) the laying out or provision of gardens, courts, squares, water features, sculpture or public art; and
- (e) the provision of other amenity features;

"layout" ("*llunwedd*") means the way in which buildings, routes and open spaces within the development are provided, situated and orientated in relation to each other and to buildings and spaces outside the development;

(1) 2000 p.7; diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno.

(2) Ar gyfer y diffiniad o "development", gweler adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8)

(3) Ar gyfer y diffiniad o "mineral-working deposit", gweler adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8).

(1) 2000 c.7; section 15(1) was amended by section 406(1) of, and paragraph 158 of Schedule 17 to, the Communications Act 2003 (c.21).

(2) S.I. 1999/293, amended by S.I. 2006/3099; there are other amending instruments but none are relevant.

ystyr "gweithrediadau mwyngloddio" ("*mining operations*") yw ennill a gweithio mwynau mewn, ar, neu o dan y tir, drwy weithio ar yr wyneb neu'n danddaearol;

ystyr "llunwedd" ("*layout*") yw'r ffordd y darperir, y lleolir ac y gogwyddir adeiladau, llwybrau a mannau agored o fewn y datblygiad, mewn perthynas â'i gilydd ac mewn perthynas ag adeiladau a mannau agored y tu allan i'r datblygiad;

ystyr "materion a gedwir yn ôl" a "materion a gadwyd yn ôl" ("*reserved matters*") mewn perthynas â chaniatâd cynllunio amlinellol neu gais am ganiatâd o'r fath, yw unrhyw rai o'r materion canlynol, na roddwyd manylion ohonynt yn y cais—

- (a) mynediad;
- (b) ymddangosiad;
- (c) tirlunio;
- (ch) llunwedd; a
- (d) graddfa, o fewn y terfynau uchaf ac isaf o ran uchder, lled a hyd pob adeilad a ddatgenir yn y cais am ganiatâd cynllunio yn unol ag erthygl 3(4);

ystyr "mynediad" ("*access*"), mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl, yw hygyrchedd wrth fynd i mewn ac oddi mewn i safle, ar gyfer cerbydau, beiciau a cherddwyr, o ran lleoli a thrin y llwybrau mynediad a chylchredeg a'r modd y maent yn cydasio â'r rhwydwaith mynediad o amgylch; ac ystyr "safle" ("*site*") yw'r safle neu'r rhan o'r safle y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol mewn perthynas ag ef neu hi, neu, yn ôl fel y digwydd, y gwnaed cais am ganiatâd o'r fath mewn perthynas ag ef neu hi;

ystyr "tirlunio" ("*landscaping*"), mewn perthynas â safle, neu unrhyw ran o safle, y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar ei gyfer neu ar ei chyfer, neu, yn ôl fel y digwydd, y gwnaed cais am ganiatâd o'r fath, yw trin y tir (ac eithrio adeiladau) at y diben o wella neu ddiogelu amwynderau'r safle a'r ardal y'i lleolir ynddi, ac y mae'n cynnwys—

- (a) sgrinio drwy ddefnyddio ffensys, waliau neu ddulliau eraill;
- (b) plannu coed, gwrychoedd, llwyni neu laswellt;
- (c) ffurfio cloddiau, terasau neu gloddweithiau cyffelyb;
- (ch) llunweddu neu ddarparu gerddi, cyrtiau, sgwariau, arweddion dŵr, cerfluniau neu gelfyddyd gyhoeddus; a
- (d) darparu arweddion amwynder eraill;

"major development" ("*datblygiad mawr*") means development⁽¹⁾ involving any one or more of the following—

- (a) the winning and working of minerals or the use of land for mineral-working deposits⁽²⁾;
- (b) waste development;
- (c) the provision of dwellinghouses where—
 - (i) the number of dwellinghouses to be provided is 10 or more; or
 - (ii) the development is to be carried out on a site having an area of 0.5 hectares or more and it is not known whether the development falls within sub-paragraph (c)(i);
- (d) the provision of a building or buildings where the floor space to be created by the development is 1,000 square metres or more; or
- (e) development carried out on a site having an area of 1 hectare or more;

"mining operations" ("*gweithrediadau mwyngloddio*") means the winning and working of minerals in, on or under land, whether by surface or underground working;

"outline planning permission" ("*caniatâd cynllunio amlinellol*") means a planning permission for the erection of a building, which is granted subject to a condition requiring the subsequent approval of the local planning authority with respect to one or more reserved matters;

"reserved matters" ("*materion a gedwir yn ôl*", "*materion a gadwyd yn ôl*") in relation to an outline planning permission, or an application for such permission, means any of the following matters in respect of which details have not been given in the application—

- (a) access;
- (b) appearance;
- (c) landscaping;
- (d) layout; and
- (e) scale, within the upper and lower limit for the height, width and length of each building stated in the application for planning permission in accordance with article 3(4);

"scale" ("*graddfa*") means the height, width and length of each building proposed within the development in relation to its surroundings;

"by site display" ("*drwy arddangos ar y safle*") means by the posting of the notice by firm affixture

(1) For the definition of "development" see section 55 of the Town and Country Planning Act (c.8).

(2) For the definition of "mineral-working deposit" see section 336 of the Town and Country Planning Act (c.8).

nid yw "tŷ annedd" ("*dwellinghouse*") yn cynnwys adeilad ag ynddo un neu ragor o fflatiau, nac ychwaith fflat oddi mewn i adeilad o'r fath; ac

ystyr "ymddangosiad" ("*appearance*") yw'r agweddau ar adeilad neu le o fewn y datblygiad sy'n penderfynu'r argraff weledol a wneir gan yr adeilad neu'r lle, gan gynnwys ffurf adeiledig allanol y datblygiad, ei bensaernïaeth, y deunyddiau, yr addurniad, y goleuo, y lliw a'r gwead.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebiadau electronig neu storio electronig at unrhyw un o ddibenion y Gorchymyn hwn y gellir ei gyflawni'n electronig—

(a) mae'r ymadrodd "cyfeiriad" ("*address*") yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddiben cyfathrebiadau neu storio o'r fath ac eithrio, pan fo'r Gorchymyn hwn yn gosod rhwymedigaeth ar unrhyw berson i ddarparu enw a chyfeiriad i unrhyw berson arall, na chyflawnir y rhwymedigaeth oni fydd y person y'i gosodir arno yn darparu cyfeiriad post; a

(b) mae cyfeiriadau at ddogfennau, mapiau, planiau, lluniadau, tystysgrifau neu ddogfennau eraill, neu at gopiâu o'r cyfryw bethau, yn cynnwys cyfeiriadau at y cyfryw ddogfennau neu gopiâu ohonynt mewn ffurf electronig.

(3) Mae paragraffau (4) i (7) yn gymwys pan fo person yn defnyddio cyfathrebiad electronig at y dibenion canlynol—

(a) cyflawni unrhyw ofyniad yn y Gorchymyn hwn i roi neu anfon unrhyw gais, hysbysiad neu ddogfen arall i, neu at, unrhyw berson arall; neu

(b) cyflwyno unrhyw gais, tystysgrif neu ddogfen arall, y cyfeirir atynt yn erthygl 22(3), i awdurdod cynllunio lleol,

ac yn y paragraffau hynny, ystyr "y derbynydd" ("*the recipient*") yw'r person a grybwyllir yn is-baragraff (a) o'r paragraff hwn neu'r awdurdod cynllunio lleol, yn ôl fel y digwydd.

(4) Nid ystyrir bod y gofyniad wedi ei gyflawni, neu (yn ôl fel y digwydd) bod y cais wedi ei gyflwyno neu ddogfen arall wedi ei chyflwyno onid yw'r ddogfen a drawsyrir gan y cyfathrebiad electronig—

(a) yn un y gall y derbynydd gael mynediad iddi;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol; ac

(c) yn ddigon parhaol i'w defnyddio i gyfeirio ati yn ddiweddarach.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "darllenadwy ym mhob modd perthnasol" ("*legible in all material respects*") yw fod yr wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad neu

to some object, sited and displayed in such a way as to be easily visible and legible by members of the public; and

"waste development" ("*datblygiad gwastraff*") means (a) any operational development designed to be used wholly or mainly for the purpose of treating, storing, processing or disposing of refuse or waste materials or (b) material change of use to the treatment, storage, processing or disposal of refuse or waste materials.

(2) In this Order and in relation to the use of electronic communications or electronic storage for any purpose of this Order which is capable of being carried out electronically—

(a) the expression "address" ("*cyfeiriad*") includes any number or address used for the purpose of such communications or storage, except that where this Order imposes any obligation on any person to provide a name and address to any other person, the obligation is not fulfilled unless the person on whom it is imposed provides a postal address; and

(b) references to documents, maps, plans, drawings, certificates or other documents, or to copies of such things, include references to such documents or copies of them in electronic form.

(3) Paragraphs (4) to (7) apply where an electronic communication is used by a person for the following purposes—

(a) fulfilling any requirement in this Order to give or send any application, notice or other document to any other person; or

(b) lodging an application, certificate or other document referred to in article 22(3) with a local planning authority,

and in those paragraphs, "the recipient" ("*y derbynydd*") means the person mentioned in sub-paragraph (a) of this paragraph or the local planning authority, as the case may be.

(4) The requirement is not taken to be fulfilled, or (as the case may be) the application or other document is not taken to have been lodged, unless the document transmitted by the electronic communication is—

(a) capable of being accessed by the recipient;

(b) legible in all material respects; and

(c) sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(5) In paragraph (4), "legible in all material respects" ("*darllenadwy ym mhob modd perthnasol*") means that the information contained in the notice or document is

ddogfen ar gael i'r derbynnydd i raddau dim llai nag y byddai pe bai wedi ei rhoi neu'i hanfon ar ffurf dogfen brintiedig.

(6) Os yw'r derbynnydd yn cael y cyfathrebiad electronig y tu allan i oriau busnes y derbynnydd, ystyrir ei fod wedi cael y cyfathrebiad ar y diwrnod gwaith dilynol; ac at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn wyl Banc nac yn wyl gyhoeddus arall.

(7) Mae gofyniad, yn y Gorchymyn hwn, bod unrhyw gais, hysbysiad neu ddogfen arall mewn ysgrifenedig wedi ei fodloni os yw'r ddogfen yn bodloni'r meini prawf ym mharagraff (4), a rhaid dehongli "ysgrifenedig" ("*written*") ac ymadroddion cytras yn unol â hynny.

available to the recipient to no lesser extent than it would be if sent or given by means of a document in printed form.

(6) Where the electronic communication is received by the recipient outside the recipient's business hours, it is taken to have been received on the next working day; and for this purpose "working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

(7) A requirement in this Order that any application, notice or other document should be in writing is fulfilled where the document meets the criteria in paragraph (4), and "written" ("*ysgrifenedig*") and cognate expressions are to be construed accordingly.

RHAN 2

Ceisiadau

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol

3.—(1) Pan wneir cais i'r awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio amlinellol, caiff yr awdurdod roi caniatâd yn ddarostyngedig i amod sy'n pennu materion a gedwir yn ôl, ar gyfer eu cymeradwyo yn ddiweddarach gan yr awdurdod.

(2) Os yw awdurdod cynllunio lleol sydd i benderfynu cais am ganiatâd cynllunio amlinellol, o'r farn, yn amgylchiadau'r achos, na ddylid ystyried y cais ar wahân i'r cyfan neu unrhyw rai o'r materion a gedwir yn ôl, rhaid iddo, o fewn cyfnod o un mis sy'n dechrau pan geir y cais, hysbysu'r ceisydd na all yr awdurdod benderfynu'r cais oni chyflwynir manylion pellach, gan nodi'r manylion pellach sy'n ofynnol ganddo.

(3) Pan fo'r llunwedd yn fater a gedwir yn ôl, rhaid i'r cais am ganiatâd cynllunio amlinellol ddatgan yn fras leoliad yr adeiladau, y llwybrau a'r manau agored a gynhwysir yn y datblygid arfaethedig.

(4) Pan fo graddfa yn fater a gedwir yn ôl, rhaid i'r cais am ganiatâd cynllunio amlinellol ddatgan y terfynau uchaf ac isaf o ran uchder, lled a hyd pob adeilad a gynhwysir yn y datblygid arfaethedig.

(5) Pan fo mynediad yn fater a gedwir yn ôl, rhaid i'r cais am ganiatâd cynllunio amlinellol ddatgan ym mha fan neu fannau y lleolir y pwyntiau mynediad i'r datblygiad arfaethedig.

Ceisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl

4.—(1) Rhaid i gais am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl—

PART 2

Applications

Applications for outline planning permission

3.—(1) Where an application is made to the local planning authority for outline planning permission, the authority may grant permission subject to a condition specifying reserved matters for the authority's subsequent approval.

(2) Where the local planning authority who are to determine an application for outline planning permission are of the opinion that, in the circumstances of the case, the application ought not to be considered separately from all or any of the reserved matters, they must within the period of one month beginning with the receipt of the application notify the applicant that they are unable to determine it unless further details are submitted, specifying the further details they require.

(3) Where layout is a reserved matter, the application for outline planning permission must state the approximate location of buildings, routes and open spaces included in the development proposed.

(4) Where scale is a reserved matter, the application for outline planning permission must state the upper and lower limit for the height, width and length of each building included in the development proposed.

(5) Where access is a reserved matter, the application for outline planning permission must state the area or areas where access points to the development proposed will be situated.

Applications for approval of reserved matters

4.—(1) An application for approval of reserved matters must—

- (a) cael ei wneud i'r awdurdod cynllunio lleol mewn ysgrifen ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith);
- (b) cynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt yn y ffurflen;
- (c) cael ei gyflwyno ynghyd â'r cyfryw blaniau a lluniadau sy'n angenrheidiol er mwyn delio â'r materion a gadwyd yn ôl yn y caniatâd cynllunio amlinellol;
- (ch) ac eithrio pan wneir y cais drwy gyfathrebiadau electronig neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn dynodi mai nifer llai sy'n ofynnol, cael ei gyflwyno ynghyd â 3 chopi o'r ffurflen; a
- (d) ac eithrio pan gyflwynir hwy drwy gyfathrebiadau electronig neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn dynodi mai nifer llai sy'n ofynnol, cael ei gyflwyno ynghyd â 3 chopi o unrhyw blaniau, lluniadau a gwybodaeth a gyflwynir gyda'r cais.

(2) Rhaid i unrhyw blaniau neu luniadau y mae'n ofynnol eu darparu o dan baragraff (1)(c) fod wedi eu lluniadu wrth raddfa ddynodedig, ac yn achos planiau, rhaid iddynt ddangos cyfeiriad y gogledd.

(3) Pan wneir cais drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig mae darpariaethau erthygl 32 yn gymwys.

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio

5.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, rhaid i gais am ganiatâd cynllunio—

- (a) cael ei wneud i'r awdurdod cynllunio lleol mewn ysgrifen ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith);
- (b) cynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt yn y ffurflen;
- (c) ac eithrio pan wneir y cais yn unol ag adran 73 (penderfynu ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a atodwyd yn gynharach), neu adran 73A(2)(c) (caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gyflawnwyd eisoes), o Ddeddf 1990(1), cael ei gyflwyno, naill ai'n electronig neu fel arall, ynghyd â'r canlynol—
 - (i) plan sy'n diffinio'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
 - (ii) unrhyw blaniau, lluniadau a gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol er mwyn disgrifio'r datblygiad sy'n destun y cais;

(1) Diwygiwyd adran 73 gan adrannau 42(2), 51(3) a 120 o Ddeddf 2004, ac Atodlen 9 i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd adran 73A gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) a pharagraff 16 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

- (a) be made in writing to the local planning authority on a form published by the Welsh Ministers (or a form substantially to the like effect);
- (b) include the particulars specified or referred to in the form;
- (c) be accompanied by such plans and drawings as are necessary to deal with the matters reserved in the outline planning permission;
- (d) except where the application is made by electronic communications or the local planning authority indicate that fewer are required, be accompanied by 3 copies of the form; and
- (e) except where they are submitted by electronic communications or the local planning authority indicate that fewer are required, be accompanied by 3 copies of any plans, drawings and information accompanying the application.

(2) Any plans or drawings required to be provided by paragraph (1)(c) must be drawn to an identified scale and, in the case of plans, must show the direction of north.

(3) Where an application is made using electronic communications the provisions of article 32 apply.

Applications for planning permission

5.—(1) Subject to the following provisions of this article, an application for planning permission must—

- (a) be made in writing to the local planning authority on a form published by the Welsh Ministers (or a form substantially to the like effect);
- (b) include the particulars specified or referred to in the form;
- (c) except where the application is made pursuant to section 73 (determination of applications to develop land without compliance with conditions previously attached) or section 73A(2)(c) (planning permission for development already carried out) of the 1990 Act(1), be accompanied, whether electronically or otherwise, by—
 - (i) a plan which identifies the land to which the application relates;
 - (ii) any other plans, drawings and information necessary to describe the development which is the subject of the application;

(1) Section 73 was amended by sections 42(2), 51(3) and 120 of, and Schedule 9 to, the 2004 Act. Section 73A was inserted by section 32 of, and paragraph 16 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c.34).

- (iii) ac eithrio pan wneir y cais drwy gyfathrebiadau electronig neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn dynodi mai nifer llai sy'n ofynnol, 3 chopi o'r ffurflen; a
- (iv) ac eithrio pan gyflwynir hwy drwy gyfathrebiadau electronig neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn dynodi mai nifer llai sy'n ofynnol, 3 chopi o unrhyw blaniau, lluniadau a gwybodaeth a gyflwynir gyda'r cais.

(2) Rhaid i unrhyw blaniau neu luniadau y mae'n ofynnol eu darparu o dan baragraff (1)(c)(i) neu (ii) fod wedi eu lluniadu wrth raddfa ddynodedig, ac yn achos planiau, rhaid iddynt ddangos cyfeiriad y gogledd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (5) o erthygl 3, yn achos cais am ganiatâd cynllunio amlinellol, nid oes raid rhoi manylion ynghylch unrhyw faterion a gedwir yn ôl.

(4) Rhaid i gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys gweithrediadau mwyngloddio neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau—

- (a) cael ei wneud ar ffurflen a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol;
- (b) cynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt yn y ffurflen; ac
- (c) cydymffurfio â gofynion paragraff (1)(c).

(5) Pan wneir cais drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig mae darpariaethau erthygl 32 yn gymwys.

Ceisiadau mewn perthynas â thir y Goron

6. Rhaid cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas â thir y Goron ynghyd ag—

- (a) datganiad i'r perwyl y gwneir y cais mewn perthynas â thir y Goron; a
- (b) os gwneir y cais gan berson a awdurdodwyd mewn ysgrifen gan yr awdurdod priodol, copi o'r awdurdodiad hwnnw.

Datganiadau dylunio a mynediad

7.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio nad yw'n gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer—

- (a) gweithrediadau peirianegol neu fwyngloddio;
- (b) datblygu tŷ annedd presennol, neu ddatblygiad o fewn cwrtel tŷ annedd o'r fath at unrhyw ddiben sy'n ategol i fwynhau'r tŷ annedd fel y cyfryw; neu
- (c) by the Crown Estates Commissioners that it contains silver or gold,

the local planning authority must not determine any application for planning permission to win and work any mineral on that land, without first notifying the body or person who gave the notice that an application has been made.

(2) In this article, "coal" ("*glo*") means coal other than that—

- (a) won or worked during the course of operations which are carried on exclusively for the purpose of exploring for coal; or

(1) 1990 p.8. Mewnosodwyd Atodlen 1A gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19).

(1) 1990 c.8. Schedule 1A was inserted by the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19).

- (b) glo y mae'n ofynnol ei gloddio neu ei gludo ymaith yng nghwrs gweithrediadau a ymgymerir at ddibenion nad ydynt yn cynnwys caffael glo neu unrhyw gynnyrch glo.

- (b) which it is necessary to dig or carry away in the course of activities carried on for purposes which do not include the getting of coal or any product of coal.

RHAN 4

PART 4

Penderfynu

Determination

Cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru

18.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar roi caniatâd gan awdurdod cynllunio lleol, naill ai am gyfnod amhenodol neu yn ystod pa bynnag gyfnod a bennir yn y cyfarwyddiadau, mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad neu mewn perthynas â datblygiad mewn unrhyw ddsbarth a bennir felly.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau bod datblygiad, sydd o ddisgrifiad a bennir yng Ngholofn 1 o'r Tabl yn Atodlen 2 i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (disgrifiadau o ddatblygiad a throthwyon a meini prawf cymwys at ddibenion diffinio "Schedule 2 development")⁽¹⁾ ac sydd hefyd o ddsbarth a ddisgrifir yn y cyfarwyddyd, yn ddatblygiad AEA at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio, ar gyfer datblygiad y mae cyfarwyddyd a roddir o dan yr erthygl hon yn gymwys iddo, mewn modd a fydd yn rhoi effaith i'r cyfarwyddyd.

Datblygiad sy'n effeithio ar briffyrdd presennol ac arfaethedig penodol

19.—(1) Pan wneir cais i awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gyfansoddir o'r canlynol, neu sy'n cynnwys y canlynol—

- (a) ffurfio, llunweddu neu addasu unrhyw fynedfa i, neu oddi ar, unrhyw ran o gefnffordd sydd naill ai'n ffordd arbennig neu, os nad yn ffordd arbennig, yn ffordd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder o fwy na 40 milltir yr awr; neu
- (b) unrhyw ddatblygiad o dir sydd o fewn 67 metr (neu pa bynnag bellter arall a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr erthygl hon) o ganol—
 - (i) unrhyw briffordd (ac eithrio cefnffordd) a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru, neu'r awdurdodwyd Gweinidogion Cymru i'w darparu, yn unol â gorchymyn o dan Ran 2

Directions by the Welsh Ministers

18.—(1) The Welsh Ministers may give directions restricting the grant of permission by a local planning authority, either indefinitely or during such a period as may be specified in the directions, in respect of any development or in respect of development of any class so specified.

(2) The Welsh Ministers may give directions that development which is both of a description set out in Column 1 of the Table in Schedule 2 to the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 1999 (descriptions of development and applicable thresholds and criteria for the purposes of the definition of "Schedule 2 development")⁽¹⁾ and of a class described in the direction is EIA development for the purposes of those Regulations.

(3) A local planning authority must deal with applications for planning permission for development to which a direction given under this article applies in such manner as to give effect to the direction.

Development affecting certain existing and proposed highways

19.—(1) Where an application is made to a local planning authority for planning permission for development which consists of or includes—

- (a) the formation, laying out or alteration of any access to or from any part of a trunk road which is either a special road or, if not a special road, a road subject to a speed limit exceeding 40 miles per hour; or
- (b) any development of land within 67 metres (or such other distance as may be specified in a direction given by the Welsh Ministers under this article) from the middle of—
 - (i) any highway (other than a trunk road) which the Welsh Ministers have provided, or are authorised to provide, in pursuance of an order under Part 2 of the Highways

⁽¹⁾ O.S.1999/293, diwygiwyd Colofn 1 o'r Tabl yn Atodlen 2 gan O.S. 2006/3099 a 2007/2610.

⁽¹⁾ S.I. 1999/293, Column 1 of the Table in Schedule 2 was amended by S.I. 2006/3099 and 2007/2610.

o Ddeddf Priffyrdd 1980 (cefnffyrdd, ffyrdd dosbarthiadol, ffyrdd metropolitaidd, ffyrdd arbennig)(1) ac nad yw, ar y pryd, wedi ei throsglwyddo i unrhyw awdurdod priffyrdd arall;

- (ii) unrhyw briffordd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei gwella o dan Ran 5 o'r Ddeddf honno (gwella priffyrdd) ac y rhoddwyd hysbysiad i'r awdurdod mewn perthynas â hi;
- (iii) unrhyw briffordd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud gwelliannau iddi yn unol â gorchymyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno; neu
- (iv) unrhyw briffordd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei hadeiladu, y dangosir ei llwybr ar y cynllun datblygu, neu y rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol ynglŷn â hi, ynghyd â mapiau neu blaniau digonol ar gyfer adnabod llwybr y briffordd,

rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru drwy anfon copi o'r cais, ac o unrhyw blaniau a lluniadau a gyflwynwyd gyda'r cais, at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid peidio â phenderfynu cais y cyfeirir ato ym mharagraff (1) oni fydd—

- (a) yr awdurdod cynllunio lleol yn cael cyfarwyddyd o dan erthygl 18 (a rhaid i'r awdurdod wedyn benderfynu'r cais yn unol â thelerau'r cyfarwyddyd hwnnw);
- (b) yr awdurdod wedi cael hysbysiad gan neu ar ran Gweinidogion Cymru, nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi unrhyw gyfarwyddyd o'r fath mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu
- (c) cyfnod o 28 diwrnod (neu pa bynnag gyfnod hwy a gytunir mewn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a Gweinidogion Cymru) o'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad i Weinidogion Cymru wedi dod i ben heb gael cyfarwyddyd o'r fath.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn perthynas ag unrhyw achos neu unrhyw ddsbarth neu ddisgrifiad o achosion, roi cyfarwyddyd sy'n pennu pellter gwahanol at ddibenion paragraff (1)(b).

(4) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cefnffordd" ("*trunk road*") yw priffordd neu briffordd arfaethedig sy'n gefnffordd yn rhinwedd adrannau 10(1) (darpariaeth gyffredinol ynglŷn â chefnffyrdd) neu 19 (ffyrdd arbennig penodol a phriffyrdd eraill i ddod yn gefnffyrdd) o Ddeddf Priffyrdd 1980(2) neu yn rhinwedd gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan adran 10, neu unrhyw

Act 1980 (trunk roads, classified roads, metropolitan roads, special roads)(1) and which has not for the time being been transferred to any other highway authority;

- (ii) any highway which the Welsh Ministers propose to improve under Part 5 of that Act (improvement of highways) and in respect of which notice has been given to the authority;
- (iii) any highway to which the Welsh Ministers propose to carry out improvements in pursuance of an order under Part 2 of that Act; or
- (iv) any highway which the Welsh Ministers propose to construct, the route of which is shown on the development plan or in respect of which the Welsh Ministers have given notice in writing to the relevant local planning authority together with maps or plans sufficient to identify the route of the highway,

the authority must notify the Welsh Ministers by sending to the Welsh Ministers a copy of the application and any accompanying plans and drawings.

(2) An application referred to in paragraph (1) must not be determined unless—

- (a) the local planning authority receive a direction given under article 18 (and the authority must then determine the application in accordance with the terms of that direction);
- (b) the authority receive notification by or on behalf of the Welsh Ministers that the Welsh Ministers do not propose to give any such direction in respect of the development to which the application relates; or
- (c) a period of 28 days (or such longer period as may be agreed in writing between the authority and the Welsh Ministers) from the date when notification was given to the Welsh Ministers has elapsed without receipt of such a direction.

(3) The Welsh Ministers may, in respect of any case or any class or description of cases, give a direction specifying a different distance for the purposes of paragraph (1)(b).

(4) In this article—

"proposed highway" ("*priffordd arfaethedig*") has the same meaning as in section 329 of the Highways Act 1980 (further provision as to interpretation)(2);

"special road" ("*ffordd arbennig*") means a highway or proposed highway which is a special

(1) 1980 p.66.

(2) Diwygiwyd adran 19 gan adran 21 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).

(1) 1980 c.66.

(2) 1980 c.66.

ddeddfiad arall neu unrhyw offeryn a wneir o dan unrhyw ddeddfiad;

ystyr "ffordd arbennig" ("*special road*") yw priffordd neu briffordd arfaethedig sy'n ffordd arbennig yn unol ag adran 16 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (darpariaeth gyffredinol ynglŷn â ffyrdd arbennig)(1); ac

mae i "priffordd arfaethedig" yr ystyr a roddir i "proposed highway" yn adran 329 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (darpariaeth bellach ynglŷn â dehongli)(2).

Datblygiad nad yw'n cydweddu â'r cynllun datblygu

20. Caiff awdurdod cynllunio lleol, yn y cyfryw achosion ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau a ragnodir mewn cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn hwn, roi caniatâd ar gyfer datblygiad nad yw'n cydweddu â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle mae'r tir yr ymwneir ag ef yn y cais.

Sylwadau sydd i'w cymryd i ystyriaeth

21.—(1) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol, wrth benderfynu cais am ganiatâd cynllunio, gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a wnaed, pan oedd unrhyw hysbysiad neu wybodaeth ynglŷn â'r cais—

- (a) wedi ei roi neu'i rhoi drwy arddangos ar y safle o dan erthygl 10 neu 12, o fewn cyfnod o 21 diwrnod a oedd yn cychwyn gyda'r dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad am y tro cyntaf drwy arddangos ar y safle;
- (b) wedi ei gyflwyno neu'i chyflwyno—
 - (i) i berchennog y tir neu i denant o dan erthygl 10; neu
 - (ii) i berchennog neu feddiannydd cyffiniol o dan erthygl 12,

o fewn cyfnod o 21 diwrnod a oedd yn cychwyn gyda'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad i'r person hwnnw, ar yr amod y gwnaed y sylwadau gan unrhyw berson y bodlonwyd yr awdurdod ei fod yn berchennog, tenant neu feddiannydd o'r fath; neu

- (c) wedi ei gyhoeddi neu'i chyhoeddi mewn papur newydd o dan erthygl 10 neu 12 neu ar wefan o dan erthygl 12, o fewn y cyfnod o 14 diwrnod a oedd yn cychwyn gyda'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad neu'r wybodaeth,

a'r sylwadau a'r cyfnodau yn yr erthygl hon yw'r sylwadau a'r cyfnodau a ragnodir at ddibenion adran

(1) Diwygiwyd adran 16 gan adran 36 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p.29) a pharagraffau 21 a 24 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(2) 1980 p.66.

road in accordance with section 16 of the Highways Act 1980 (general provision as to special roads)(1); and

"trunk road" ("*ceffnffordd*") means a highway or proposed highway which is a trunk road by virtue of sections 10(1) (general provision as to trunk roads) or 19 (certain special roads and other highways to become trunk roads) of the Highways Act 1980(2) or by virtue of an order or direction under section 10, or any other enactment or any instrument made under any enactment.

Development not in accordance with the development plan

20. A local planning authority may in such cases and subject to such conditions as may be prescribed by directions given by the Welsh Ministers under this Order grant permission for development which does not accord with the provisions of the development plan in force in the area in which the land to which the application relates is situated.

Representations to be taken into account

21.—(1) A local planning authority must, in determining an application for planning permission, take into account any representations made, where any notice of or information about the application has been—

- (a) given by site display under article 10 or 12, within 21 days beginning with the date when the notice was first displayed by site display;
- (b) served on—
 - (i) an owner of the land or a tenant under article 10; or
 - (ii) an adjoining owner or occupier under article 12,

within 21 days beginning with the date when the notice was served on that person, provided that the representations are made by any person who they are satisfied is such an owner, tenant or occupier; or

- (c) published in a newspaper under article 10 or 12 or on a website under article 12, within the period of 14 days beginning with the date on which the notice or information was published,

and the representations and periods in this article are representations and periods prescribed for the purposes

(1) Section 16 was amended by section 36 of, and paragraphs 21 and 24 of Schedule 2 to, the Planning Act 2008 (c.29).

(2) Section 19 was amended by section 21 of the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22).

71(2)(a) o Ddeddf 1990 (ymgyngoriadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau o dan adran 70)(1).

(2) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad o'i benderfyniad i bob person a wnaeth sylwadau yr oedd yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd i ystyriaeth yn unol â pharagraff (1)(b)(i), a'r cyfryw hysbysiad yw'r hysbysiad a ragnodir at ddibenion adran 71(2)(b) o Ddeddf 1990.

(3) Mae paragraffau (1) a (2) yn gymwys i geisiadau a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol)(2) ac i geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 293A(2) o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: gwneud cais)(3) ac y mae paragraffau (1)(b) a (2) yn gymwys i apelau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath)(4), fel pe bai cyfeiriadau—

- (a) at awdurdod cynllunio lleol, yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru; a
- (b) at benderfynu cais am ganiatâd cynllunio, yn gyfeiriadau at benderfynu cais o'r fath neu apêl, yn ôl fel y digwydd.

Cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau

22.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan fo cais dilys wedi dod i law awdurdod cynllunio lleol, rhaid i'r awdurdod, o fewn y cyfnod a bennir neu y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(5) roi i'r ceisydd hysbysiad o'i benderfyniad neu'i ddyfarniad neu roi hysbysiad bod y cais wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru.

(2) Y cyfnod a bennir neu y cyfeirir ato yn y paragraff hwn yw—

- (a) y cyfnod o wyth wythnos sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y daeth y cais i law'r awdurdod cynllunio lleol;
- (b) ac eithrio pan fo'r ceisydd eisoes wedi rhoi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru, pa bynnag gyfnod estynedig a gytunir mewn ysgrifen rhwng y ceisydd a'r awdurdod; neu
- (c) os yw unrhyw ffi sy'n ofynnol mewn perthynas â chais wedi ei thalu â siec, a'r siec honno wedi ei dychwelyd wedyn heb ei thalu, y cyfnod priodol fel a bennir yn is-baragraff (a) neu (b)

(1) Diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34), a pharagraff 15 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(2) Diwygiwyd adran 77 gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) a pharagraff 18 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 40(2)(d) o Ddeddf 2004.

(3) Mewnosodwyd adran 293A gan adran 82(1) o Ddeddf 2004.

(4) Diwygiwyd adran 78 gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) ac adrannau 40(2)(e) a 43(2) o Ddeddf 2004.

(5) Mae O.S. 1999/293 yn estyn y cyfnod amser ar gyfer dyfarnu ceisiadau am ddatblygiad AEA.

of section 71(2)(a) of the 1990 Act (consultations in connection with determinations under section 70)(1).

(2) A local planning authority must give notice of their decision to every person who has made representations which they were required to take into account in accordance with paragraph (1)(b)(i), and such notice is notice prescribed for the purposes of section 71(2)(b) of the 1990 Act.

(3) Paragraphs (1) and (2) apply to applications referred to the Welsh Ministers under section 77 of the 1990 Act (reference of applications to Secretary of State)(2) and to applications made to the Welsh Ministers under section 293A(2) of the 1990 Act (urgent Crown development:application)(3) and paragraphs (1)(b) and (2) apply to appeals to the Welsh Ministers made under section 78 of the 1990 Act (right to appeal against planning decisions and failure to take such decisions)(4), as if the reference to—

- (a) a local planning authority were to the Welsh Ministers; and
- (b) determining an application for planning permission were to determining such application or appeal, as the case may be.

Time periods for decisions

22.—(1) Subject to paragraph (5), where a valid application has been received by a local planning authority, they must within the period specified or referred to in paragraph (2)(5) give the applicant notice of their decision or determination or give notice that the application has been referred to the Welsh Ministers.

(2) The period specified or referred to in this paragraph is—

- (a) the period of eight weeks beginning with the date on which the application was received by the local planning authority;
- (b) except where the applicant has already given notice of appeal to the Welsh Ministers, such extended period as may be agreed in writing between the applicant and the authority; or
- (c) where any fee required in respect of an application has been paid by a cheque which is subsequently dishonoured, the appropriate period specified in sub-paragraph (a) or (b)

(1) Section 71 was amended by section 16(2) of, and paragraph 15 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34).

(2) Section 77 was amended by section 32 of, and paragraph 18 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c.34), and section 40(2)(d) of the 2004 Act.

(3) Section 293A was inserted by section 82(1) of the 2004 Act.

(4) Section 78 was amended by section 17(2) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) and sections 40(2)(e) and 43(2) of the 2004 Act.

(5) S.I. 1999/293 extends the time period for determination of applications for EIA development.

uchod, a gyfrifir gan ddiystyru'r cyfnod rhwng y dyddiad yr anfonodd yr awdurdod hysbysiad ysgrifenedig at y ceisydd fod y siec wedi ei dychwelyd heb ei thalu a'r dyddiad y bodlonir yr awdurdod ei fod wedi derbyn swm llawn y ffi.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "cais dilys" ("*valid application*") yw cais sy'n cynnwys—

- (a) cais sy'n cydymffurfio â gofynion erthygl 4 neu erthygl 5, yn ôl fel y digwydd;
- (b) pan wneir cais mewn perthynas â thir y Goron, y dogfennau sy'n ofynnol gan erthygl 6;
- (c) mewn achos y mae erthygl 7 yn gymwys iddo, y datganiad dylunio a mynediad neu'r datganiad mynediad, yn ôl fel y digwydd;
- (ch) mewn achos y mae erthygl 9 yn gymwys iddo, y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol gan yr erthygl honno;
- (d) y dystysgrif sy'n ofynnol gan erthygl 11;
- (dd) yn ddarostyngedig i baragraff (4), y manylion y gofynnir am eu cynnwys, neu'r dystiolaeth y gofynnir am ei chynnwys, gan yr awdurdod cynllunio lleol o dan adran 62(3) o Ddeddf 1990 (ceisiadau am ganiatâd cynllunio)(1); ac
- (e) unrhyw ffi y mae'n ofynnol ei thalu mewn perthynas â'r cais, ac at y diben hwn rhaid ystyried bod cyflwyno siec am swm y ffi yn gyfystyr â thalu,

a rhaid ystyried bod cais dilys wedi ei gael pan fo'r cais a'r cyfryw ddogfennau, manylion neu dystiolaeth y cyfeirir atynt uchod fel rhai y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y cais neu'u cyflwyno ynghyd â'r cais, ac unrhyw ffi sy'n ofynnol, wedi eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

(4) Nid yw paragraff (3)(dd) yn gymwys ac eithrio—

- (a) pan fo'r cais ar gyfer datblygiad mawr;
- (b) yr awdurdod cynllunio lleol, cyn bo'r cais wedi ei wneud, yn cyhoeddi rhestr o ofynion ar ei wefan at ddibenion paragraff(3); ac
- (c) y manylion neu'r dystiolaeth y mae'n ofynnol gan yr awdurdod eu cynnwys, neu ei chynnwys, yn y cais, yn dod o fewn y rhestr honno.

(5) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol ddarparu pa bynnag wybodaeth ynghylch ceisiadau a wnaed o dan erthygl 4 neu erthygl 5 (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y modd yr ymdriniwyd ag unrhyw gais o'r fath) a wneir yn ofynnol gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd. Caiff unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gynnwys darpariaeth ynglŷn â pha bersonau sydd i'w hysbysu a'r modd y darperir yr wybodaeth.

above calculated disregarding the period between the date when the authority sent the applicant written notice of the dishonouring of the cheque and the date when the authority are satisfied they have received the full amount of the fee.

(3) In this article "valid application" ("*cais dilys*") means an application which consists of—

- (a) an application which complies with the requirements of article 4 or article 5, as the case may be;
- (b) where an application is made in respect of Crown land, the documents required by article 6;
- (c) in a case to which article 7 applies, the design and access statement or the access statement as the case may be;
- (d) in a case to which article 9 applies, the written declaration required by that article;
- (e) the certificate required by article 11;
- (f) subject to paragraph (4), the particulars or evidence required by the local planning authority under section 62(3) of the 1990 Act (applications for planning permission)(1); and
- (g) any fee required to be paid in respect of the application and, for this purpose, lodging a cheque for the amount of the fee is to be taken as payment,

and a valid application must be taken to have been received when the application and such of the documents, particulars or evidence referred to above as are required to be included in or to accompany the application and any fee required have been lodged with the local planning authority.

(4) Paragraph (3)(f) only applies if—

- (a) the application is for major development;
- (b) before the application is made the local planning authority publish, for the purposes of paragraph (3), a list of requirements on their website; and
- (c) the particulars or evidence that the authority require to be included in the application fall within that list.

(5) A local planning authority must provide such information about applications made under article 4 or article 5 (including information as to the manner in which any such application has been dealt with) as the Welsh Ministers may by direction require. Any such direction may include provision as to the persons to be informed and the manner in which the information is to be provided.

(1) Amnewidiwyd adran 62 gan adran 42(1) o Ddeddf 2004.

(1) Section 62 was substituted by section 42(1) of the 2004 Act.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), rhaid i awdurdod cynllunio lleol beidio â phenderfynu cais am ganiatâd cynllunio, pan fo unrhyw hysbysiad o'r cais, neu wybodaeth yn ei gylch—

- (a) wedi ei roi neu'i rhoi drwy arddangos ar y safle o dan erthygl 10 neu 12, cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad am y tro cyntaf drwy arddangos ar y safle;
- (b) wedi ei gyflwyno neu'i chyflwyno—
 - (i) i berchennog y tir neu i denant o dan erthygl 10, neu
 - (ii) i berchennog neu feddiannydd cyffiniol o dan erthygl 12,

cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad i'r person hwnnw; neu

- (c) wedi ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi mewn papur newydd o dan erthygl 10 neu 12 neu ar wefan o dan erthygl 12, o fewn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad neu'r wybodaeth,

a'r cyfnodau yn y paragraff hwn yw'r cyfnodau a ragnodir at ddibenion adran 71(1) o Ddeddf 1990 (ymgyngoriadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau o dan adran 70)(1).

(7) Os oes mwy nag un o'r cyfnodau rhagnodedig o dan baragraff (6) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol beidio â phenderfynu'r cais cyn diwedd y diweddaraf neu'r diweddarach o'r cyfnodau hynny.

Ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio

23. Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol drwy amod neu gyfyngiad a osodwyd wrth roi caniatâd cynllunio (ac eithrio cais am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl neu gais am gymeradwyaeth o dan Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (datblygiad gan weithredwyr cod cyfathrebiadau electronig)(2)), rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais i'r ceisydd o fewn cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y daeth y cais i law'r awdurdod, neu pa bynnag gyfnod hwy a gytunir mewn ysgriflen rhwng y ceisydd a'r awdurdod.

Hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad neu ddyfarniad mewn perthynas â chais cynllunio

24.—(1) Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn rhoi hysbysiad o benderfyniad neu ddyfarniad ar gais am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer

(6) Subject to paragraph (7), a local planning authority must not determine an application for planning permission, where any notice of, or information about, the application has been—

- (a) given by site display under article 10 or 12, before the end of the period of 21 days beginning with the date when the notice was first displayed by site display;
- (b) served on—
 - (i) an owner of the land or a tenant under article 10, or
 - (ii) an adjoining owner or occupier under article 12,

before the end of the period of 21 days beginning with the date when the notice was served on that person; or

- (c) published in a newspaper under article 10 or 12 or on a website under article 12, within the period of 14 days beginning with the date on which the notice or information was published,

and the periods in this paragraph are periods prescribed for the purposes of section 71(1) of the 1990 Act (consultations in connection with determinations under section 70)(1).

(7) Where, under paragraph (6), more than one of the prescribed periods applies, the local planning authority must not determine the application before the end of the later or latest of such periods.

Applications made under planning condition

23. Where an application has been made to a local planning authority for any consent, agreement or approval required by a condition or limitation attached to a grant of planning permission (other than an application for approval of reserved matters or an application for approval under Part 24 of Schedule 2 to the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (development by electronic communications code operators)(2)), the authority must give notice to the applicant of their decision on the application within a period of 8 weeks beginning with the date on which the application was received by the authority, or such longer period as may be agreed by the applicant and the authority in writing.

Written notice of decision or determination relating to a planning application

24.—(1) When the local planning authority give notice of a decision or determination on an application for planning permission or for approval of reserved

(1) Amnewidiwyd adran 71(1) gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34).

(2) O.S. 1995/418. Amnewidiwyd Rhan 24 o Atodlen 2 gan O.S. 2002/1878 (Cy.187).

(1) Section 71(1) was substituted by section 16(2) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34).

(2) S.I. 1995/418. Part 24 of Schedule 2 was substituted by S.I. 2002/1878 (W.187).

materion a gadwyd yn ôl, a chaniatâd neu gymeradwyaeth naill ai'n cael ei roi neu'i rhoi yn ddarostyngedig i amodau, neu'r cais yn cael ei wrthod, rhaid i'r hysbysiad—

- (a) datgan yn eglur a manwl y rhesymau llawn am y gwrthodiad neu am unrhyw amod a osodir, gan bennu'r holl bolisiâu a chynigion yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i'r penderfyniad; a
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar roi caniatâd ar gyfer y datblygiad y gwneir cais amdano, neu pan fo Gweinidogion Cymru neu Adran o Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynegi'r farn na ddylid rhoi'r caniatâd (naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol) neu y dylid ei roi yn ddarostyngedig i amodau, rhoi manylion o'r cyfarwyddyd a roddwyd neu'r farn a fynegwyd; ac
- (c) cael ei gyflwyno ynghyd â hysbysiad yn y termau a bennir yn Atodlen 5 (neu mewn termau o'r un sylwedd).

(2) Os yw—

- (a) y ceisydd am ganiatâd cynllunio wedi cyflwyno datganiad amgylcheddol; a
- (b) yr awdurdod cynllunio lleol (ar ôl cymryd gwybodaeth amgylcheddol i ystyriaeth) wedi penderfynu rhoi caniatâd (pa un ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau),

rhaid i'r hysbysiad a roddir i'r ceisydd yn unol ag erthygl 22(1) gynnwys datganiad bod gwybodaeth amgylcheddol wedi ei chymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod.

RHAN 5

Apelau

Hysbysiad o apêl

25. Mae erthyglau 10 ac 11 yn gymwys i unrhyw apêl a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath) fel y maent yn gymwys i geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Apelau

26.—(1) Rhaid i geisydd sy'n dymuno apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath) roi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru drwy—

matters and a permission or approval is either granted subject to conditions or the application is refused, the notice must—

- (a) state clearly and precisely the full reasons for the refusal or for any condition imposed specifying all policies and proposals in the development plan which are relevant to the decision; and
- (b) where the Welsh Ministers have given a direction restricting the grant of permission for the development for which application is made or where the Welsh Ministers or a United Kingdom Government Department have expressed the view that the permission should not be granted (either wholly or in part) or should be granted subject to conditions, give details of the direction or of the view expressed; and
- (c) be accompanied by a notification in the terms (or substantially in the terms) set out in Schedule 5.

(2) Where—

- (a) the applicant for planning permission has submitted an environmental statement; and
- (b) the local planning authority have decided (having taken environmental information into consideration) to grant permission (whether unconditionally or subject to conditions),

the notice given to the applicant in accordance with article 22(1) must include a statement that environmental information has been taken into consideration by the authority.

PART 5

Appeals

Notice of appeal

25. Articles 10 and 11 apply to any appeal to the Welsh Ministers under section 78 of the 1990 Act (right to appeal against planning decisions and failure to take such decisions) as they apply to applications for planning permission.

Appeals

26.—(1) An applicant who wishes to appeal to the Welsh Ministers under section 78 of the 1990 Act (right to appeal against planning decisions and failure to take such decisions) must give notice of appeal to the Welsh Ministers by—

- (a) cyflwyno i Weinidogion Cymru, o fewn y terfyn amser a bennir ym mharagraff (2), ffurflen a gafwyd gan Weinidogion Cymru, ynghyd â'r cyfryw rai o'r dogfennau a bennir ym mharagraff (3) sy'n berthnasol i'r apêl; a
- (b) cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol gopi o'r ffurflen a grybwyllir ym mharagraff (a), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ynghyd â chopi o unrhyw ddogfennau perthnasol a grybwyllir ym mharagraff (3)(d).

(2) Y terfyn amser a grybwyllir ym mharagraff (1) yw chwe mis ar ôl—

- (a) dyddiad yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r dyfarniad sy'n arwain at yr apêl;
- (b) mewn achos pan na roddir hysbysiad o benderfyniad neu ddyfarniad, diwedd y cyfnod a bennir yn erthygl 22(2) neu, yn ôl fel y digwydd, erthygl 23; neu
- (c) mewn achos pan fo'r awdurdod cynllunio lleol wedi cyflwyno hysbysiad i'r ceisydd yn unol ag erthygl 3(2) bod arno angen gwybodaeth bellach ac nad yw'r ceisydd wedi darparu'r wybodaeth, dyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwnnw,

neu pa bynnag gyfnod hwy y caiff Gweinidogion Cymru ei ganiatáu ar unrhyw adeg.

(3) Y dogfennau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw—

- (a) y cais a wnaed i'r awdurdod cynllunio lleol ac a arweiniodd at yr apêl;
- (b) yr holl blaniau, lluniadau a dogfennau a anfonwyd at yr awdurdod mewn cysylltiad â'r cais;
- (c) yr holl ohebiaeth gyda'r awdurdod mewn perthynas â'r cais;
- (ch) unrhyw dystysgrif a ddarparwyd i'r awdurdod o dan erthygl 11;
- (d) unrhyw blaniau, dogfennau neu luniadau eraill mewn perthynas â'r cais, nad oedd wedi eu hanfon at yr awdurdod;
- (dd) yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r dyfarniad, os oes un;
- (e) os yw'r apêl yn ymwneud â chais am gymeradwyo materion penodol yn unol ag amod ar ganiatâd cynllunio, y cais am y caniatâd hwnnw, y planiau a gyflwynwyd ynghyd â'r cais hwnnw a'r caniatâd cynllunio a roddwyd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod derbyn hysbysiad o apêl oddi wrth geisydd os na chyflwynir i Weinidogion Cymru y dogfennau sy'n ofynnol o dan baragraffau (1) a (3) o fewn y terfyn amser a bennir ym mharagraff (2).

- (a) serving on the Welsh Ministers, within the time limit specified in paragraph (2), a form obtained from the Welsh Ministers, together with such of the documents specified in paragraph (3) as are relevant to the appeal; and
- (b) serving on the local planning authority a copy of the form mentioned in paragraph (a), as soon as reasonably practicable, together with a copy of any relevant documents mentioned in paragraph (3)(e).

(2) The time limit mentioned in paragraph (1) is six months from—

- (a) the date of the notice of the decision or determination giving rise to the appeal;
- (b) in a case where there has been no notice of decision or determination, the expiry of the period specified in article 22(2) or, as the case may be, article 23; or
- (c) in a case in which the local planning authority have served a notice on the applicant in accordance with article 3(2) that they require further information and the applicant has not provided the information, the date of service of that notice,

or such longer period as the Welsh Ministers may at any time allow.

(3) The documents mentioned in paragraph (1) are—

- (a) the application made to the local planning authority which has occasioned the appeal;
- (b) all plans, drawings and documents sent to the authority in connection with the application;
- (c) all correspondence with the authority relating to the application;
- (d) any certificate provided to the authority under article 11;
- (e) any other plans, documents or drawings relating to the application which were not sent to the authority;
- (f) the notice of the decision or determination, if any;
- (g) if the appeal relates to an application for approval of certain matters in accordance with a condition on a planning permission, the application for that permission, the plans submitted with that application and the planning permission granted.

(4) The Welsh Ministers may refuse to accept a notice of appeal from an applicant if the documents required under paragraphs (1) and (3) are not served on the Welsh Ministers within the time limit specified in paragraph (2).

(5) Caiiff Gweinidogion Cymru ddarparu, neu drefnu ar gyfer darparu, gwefan i'w defnyddio at ba bynnag ddibenion a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru—

- (a) sy'n ymwneud ag apelau o dan adran 78 o Ddeddf 1990 a'r erthygl hon, a
- (b) y gellir eu cyflawni yn electronig.

(6) Pan fo person yn rhoi hysbysiad o apel i Weinidogion Cymru gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, mae darpariaethau erthygl 32 yn gymwys.

(5) The Welsh Ministers may provide, or arrange for the provision of, a website for use for such purposes as the Welsh Ministers think fit which—

- (a) relate to appeals under section 78 of the 1990 Act and this article, and
- (b) are capable of being carried out electronically.

(6) Where a person gives notice of appeal to the Welsh Ministers using electronic communications, the provisions of article 32 apply.

RHAN 6

Amrywiol

Gorchmynion datblygu lleol

27.—(1) Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwneud gorchmyn datblygu lleol, rhaid i'r awdurdod yn gyntaf baratoi—

- (a) drafft o'r gorchmyn; a
- (b) datganiad o resymau'r awdurdod dros wneud y gorchmyn.

(2) Rhaid i'r datganiad o resymau gynnwys—

- (a) disgrifiad o'r datblygiad y byddai'r gorchmyn yn ei ganiatáu; a
- (b) plan neu ddatganiad sy'n galluogi adnabod y tir y byddai'r gorchmyn yn ymwneud ag ef.

(3) Pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi paratoi gorchmyn datblygu lleol drafft, rhaid i'r awdurdod ymgynghori, yn unol â pharagraff (5), â'r cyfryw rai o'r personau canlynol y byddai'r gorchmyn, pe gwneid ef, ym marn yr awdurdod, yn effeithio ar eu buddiannau—

- (a) awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y mae unrhyw ran o'i ardal oddi mewn i ardal yr awdurdod neu'n gyffiniol â hi;
- (b) Cyngor Cefn Gwlad Cymru(1);
- (c) Asiantaeth yr Amgylchedd(2);
- (ch) Gweinidogion Cymru;
- (d) unrhyw berson—
- (i) y mae'r cod cyfathrebiadau electronig yn gymwys iddo yn rhinwedd cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 106(3)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cymhwyso'r cod cyfathrebiadau electronig)(3); a

PART 6

Miscellaneous

Local development orders

27.—(1) Where a local planning authority propose to make a local development order the authority must first prepare—

- (a) a draft of the order; and
- (b) a statement of the authority's reasons for making the order.

(2) The statement of reasons must contain—

- (a) a description of the development which the order would permit; and
- (b) a plan or statement identifying the land to which the order would relate.

(3) Where a local planning authority have prepared a draft local development order, the authority must consult, in accordance with paragraph (5), such of the following persons whose interests the authority considers would be affected by the order if made—

- (a) a local planning authority or community council any part of whose area is in or adjoins the authority's area;
- (b) the Countryside Council for Wales(1);
- (c) the Environment Agency(2);
- (d) the Welsh Ministers;
- (e) any person—
- (i) to whom the electronic communications code applies by virtue of a direction given under section 106(3)(a) of the Communications Act 2003 (application of the electronic communications code)(3); and

(1) *Gweler* adran 128(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43).

(2) *Gweler* adran 1(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25).

(3) 2003 p.21.

(1) *See* section 128(1) of the Environmental Protection Act 1990 (c. 43).

(2) *See* section 1(1) of the Environment Act 1995 (c. 25).

(3) 2003 c.21.

- (ii) sy'n berchen neu sy'n rheoli cyfarpar cyfathrebiadau electronig a leolir mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod;
- (dd) unrhyw rai o'r personau canlynol sy'n arfer swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod—
 - (i) Bwrdd Iechyd Lleol(1);
 - (ii) person y rhoddwyd trwydded iddo o dan adran 6(1)(b) ac (c) o Ddeddf Trydan 1989 (trwyddedau i awdurdodi cyflenwi, etc)(2);
 - (iii) person y rhoddwyd trwydded iddo o dan adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986 (trwyddedu cludwyr nwy)(3);
 - (iv) ymgwymerwr carthffosiaeth;
 - (v) ymgwymerwr dŵr;
- (e) cyrff gwirfoddol y mae rhai neu'r cyfan o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod;
- (f) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr awdurdod;
- (ff) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr awdurdod;
- (g) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl yn ardal yr awdurdod;
- (ng) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n cynnal busnesau yn ardal yr awdurdod.

(4) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori hefyd ag unrhyw berson y byddai wedi bod yn ofynnol i'r awdurdod ymgynghori ag ef ynghylch cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad y bwriedir ei ganiatáu drwy'r gorchymyn.

(5) Wrth ymgynghori yn unol â pharagraffau (3) a (4) rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol—

- (a) anfon copi o'r gorchymyn drafft a'r datganiad o resymau at yr ymgynghoreion;
- (b) pennu cyfnod ymgynghori o ddim llai na 28 diwrnod; ac
- (c) cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a ddaw i law'r awdurdod yn ystod y cyfnod a bennir.

(6) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol, yn ystod unrhyw ymgynghoriad o dan baragraffau (3) a (4)—

- (ii) who owns or controls electronic communications apparatus situated in any part of the authority's area;
- (f) any of the following persons who exercise functions in any part of the authority's area—
 - (i) a Local Health Board(1);
 - (ii) a person to whom a licence has been granted under section 6(1)(b) and (c) of the Electricity Act 1989 (licences authorising supply, etc)(2);
 - (iii) a person to whom a licence has been granted under section 7(2) of the Gas Act 1986 (licensing of gas transporters)(3);
 - (iv) a sewerage undertaker;
 - (v) a water undertaker;
- (g) voluntary bodies some or all of whose activities benefit any part of the authority's area;
- (h) bodies which represent the interests of different racial, ethnic or national groups in the authority's area;
- (i) bodies which represent the interests of different religious groups in the authority's area;
- (j) bodies which represent the interests of disabled persons in the authority's area;
- (k) bodies which represent the interests of persons carrying on business in the authority's area.

(4) The local planning authority must also consult any person with whom they would have been required to consult on an application for planning permission for the development proposed to be permitted by the order.

(5) In consulting in accordance with paragraphs (3) and (4) the local planning authority must—

- (a) send a copy of the draft order and the statement of reasons to the consultees;
- (b) specify a consultation period of not less than 28 days; and
- (c) take account of all representations received by them during the period specified.

(6) A local planning authority must, during any consultation under paragraphs (3) and (4)—

(1) *Gweler* adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

(2) 1989 p. 29. Amnewidiwyd adran 6 gan adran 30 o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27), amnewidiwyd is-adran (1)(b) gan adran 136(1) o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20) a diwygiwyd is-adran (1)(c) gan adran 197(9) o Ddeddf Ynni 2004 a Rhan 1 o Atodlen 23 i'r Ddeddf honno.

(3) 1986 p. 44; amnewidiwyd adran 7 gan adran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45) a diwygiwyd is-adran (2) gan adrannau 3(2) a 76 o Ddeddf Cyfleustodau 2000, a pharagraffau 1 a 4 o Ran I o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(1) *See* section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42).

(2) 1989 c. 29. Section 6 was substituted by section 30 of the Utilities Act 2000 (c. 27), subsection (1)(b) was substituted by section 136(1) of the Energy Act 2004 (c. 20) and subsection (1)(c) was amended by section 197(9) of, and Part 1 of Schedule 23 to, the Energy Act 2004.

(3) 1986 c. 44; section 7 was substituted by section 5 of the Gas Act 1995 (c. 45) and subsection (2) was amended by sections 3(2) and 76 of, and paragraphs 1 and 4 of Part I of Schedule 6 to, the Utilities Act 2000.

- (a) rhoi copi o'r gorchymyn datblygu lleol drafft a'r datganiad o resymau ar gael i'w harchwilio—
 - (i) yn ei brif swyddfa yn ystod oriau gwaith arferol; a
 - (ii) ym mha bynnag fannau eraill o fewn ei ardal a ystyria'n briodol;
- (b) cyhoeddi ar ei wefan—
 - (i) y gorchymyn datblygu lleol drafft a'r datganiad o resymau;
 - (ii) datganiad bod y dogfennau hynny ar gael i'w harchwilio a'r manau ac amseroedd lle y gellir eu harchwilio; a
 - (iii) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i sylwadau ar y gorchymyn datblygu lleol drafft ddod i law, sef dyddiad ddim llai nag 28 diwrnod ar ôl dyddiad y cyhoeddiad cyntaf ar y wefan; ac
- (c) rhoi hysbysiad o'r canlynol drwy hysbysebu yn lleol—
 - (i) y gorchymyn datblygu lleol drafft a'r datganiad o resymau;
 - (ii) datganiad bod y dogfennau hynny ar gael i'w harchwilio a'r manau ac amseroedd lle y gellir eu harchwilio; a
 - (iii) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i sylwadau ar y gorchymyn datblygu lleol drafft ddod i law, sef dyddiad ddim llai nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad gyntaf.

(7) Os byddai'r gorchymyn datblygu lleol drafft yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a bennir yn y gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad hefyd o'r bwriad i wneud y gorchymyn—

- (a) drwy arddangos, mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r safle y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, hysbysiad yn y ffurf a bennir yn Atodlen 6, neu mewn ffurf sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith, ac yn ddarostyngedig i baragraff (8), gadael yr hysbysiad yno am gyfnod o ddim llai nag 28 diwrnod, sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y'i harddangosir gyntaf; a
- (b) drwy gyflwyno copi o'r hysbysiad hwnnw i bob person y gŵyr yr awdurdod ei fod yn berchennog neu'n denant unrhyw ran o'r safle, ac y mae ei enw a'i gyfeiriad yn hysbys i'r awdurdod,
- (c) a rhaid iddo, yn yr hysbysiad, bennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i sylwadau ynghylch y gorchymyn datblygu lleol drafft ddod i law, sef dyddiad ddim llai nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr arddangoswyd neu y cyflwynwyd yr hysbysiad, yn ôl fel y digwydd.

- (a) make a copy of the draft local development order and statement of reasons available for inspection—
 - (i) at their principal office during normal working hours; and
 - (ii) at such other places within their area as they consider appropriate;
- (b) publish on their website—
 - (i) the draft local development order and the statement of reasons;
 - (ii) a statement that those documents are available for inspection and the places where and times when they can be inspected; and
 - (iii) the date by which representations on the draft local development order must be received, which must be not less than 28 days after the date of first publication on the website; and
- (c) give notice by local advertisement of—
 - (i) the draft local development order and the statement of reasons;
 - (ii) the availability of those documents for inspection, and the places where and times when they can be inspected; and
 - (iii) the date by which representations on the draft local development order must be received, which must be not less than 28 days from the date on which the notice was first published.

(7) Where the draft local development order would grant planning permission for development specified in the order, the local planning authority must also give notice of the proposal to make the order—

- (a) by displaying in at least one place on or near to the site to which the order relates a notice in the form set out in Schedule 6 or in a form substantially to the like effect, and, subject to paragraph (8), leaving the notice in position for a period of not less than 28 days beginning with the date on which it is first displayed; and
- (b) by serving a copy of that notice on every person whom the authority know to be the owner or tenant of any part of the site whose name and address is known to the authority,
- (c) and must specify in the notice a date by which representations on the draft local development order must be received, which must be not less than 28 days from the date on which the notice was displayed or served, as the case may be.

(8) Os caiff hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(a) ei dynnu ymaith, ei guddio neu'i ddifwyno cyn bo'r cyfnod y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw wedi dod i ben, a hynny pan nad oedd bai ar yr awdurdod cynllunio lleol na bwriad ganddo i wneud hynny, rhaid trin yr awdurdod fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw, os cymerodd yr awdurdod gamau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac i'w ailosod pe bai angen.

(9) Pan fo unrhyw hysbysiad o'r cynnig—

- (a) wedi ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol neu drwy hysbysebu yn lleol yn unol â pharagraff (6);
- (b) wedi ei roi drwy arddangos ar y safle o dan baragraff (7)(a); neu
- (c) wedi ei gyflwyno i berchennog y tir neu denant o dan baragraff (7)(b),

rhaid i'r awdurdod wrth ystyried pa addasiadau y dylid eu gwneud i'r gorchymyn datblygu lleol drafft, neu a ddylid mabwysiadu gorchymyn o'r fath ai peidio, gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a wneir mewn perthynas â'r gorchymyn hwnnw ac a ddaw i law'r awdurdod erbyn y dyddiad a bennir ar y wefan neu yn yr hysbysiadau yn unol â pharagraff (6) neu (7), yn ôl fel y digwydd, fel y dyddiad erbyn pryd y dylid gwneud sylwadau (neu, os yw'r dyddiadau ar y wefan neu yn yr hysbysiadau yn wahanol i'w gilydd, y diweddaraf o'r cyfryw ddyddiadau).

(10) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol anfon copi o orchymyn datblygu lleol drafft a'r datganiad o resymau mewn perthynas â'r gorchymyn hwnnw, gan gynnwys unrhyw addasiadau a wnaed i'r gorchymyn neu'r datganiad, at Weinidogion Cymru ar unrhyw adeg wedi i'r awdurdod gydymffurfio â gofynion paragraff (9).

(11) Yn ddarostyngedig i baragraff (12), rhaid i awdurdod cynllunio lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach ynglŷn â mabwysiadu gorchymyn datblygu lleol cyn bod naill ai—

- (a) Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r awdurdod mewn ysgrifen nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud cyfarwyddyd o dan adran 61B(1) o Ddeddf 1990 (ymyriad gan Weinidogion Cymru)(1); neu
- (b) cyfnod o 21 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd y drafft at Weinidogion Cymru wedi dod i ben, a Gweinidogion Cymru heb hysbysu'r awdurdod eu bod yn bwriadu gwneud cyfarwyddyd o'r fath, nac wedi ei hysbysu bod arnynt angen rhagor o amser i gyrraedd penderfyniad.

(12) Os yw Gweinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o 21 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (11)(b), wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol bod arnynt angen rhagor o amser i gyrraedd penderfyniad, rhaid i'r awdurdod beidio â chymryd unrhyw gamau pellach

(8) Where the notice referred to in paragraph (7)(a) is, without any fault or intention of the local planning authority, removed, obscured or defaced before the period referred to in that paragraph has elapsed, the authority are to be treated as having complied with the requirements of that paragraph if the authority have taken reasonable steps to protect the notice, and, if necessary, replace it.

(9) Where any notice of the proposal has been—

- (a) published on the local planning authority's website or by local advertisement in accordance with paragraph (6);
- (b) given by site display under paragraph (7)(a); or
- (c) served on an owner of the land or a tenant under paragraph (7)(b),

the authority must, in considering what modifications should be made to the draft local development order or whether such an order should be adopted, take into account any representations made in relation to that order and received by the authority by the date specified on the website or in the notices, in accordance with paragraph (6) or (7) as the case may be, as the date by which representations should be made (or, if the dates on the website or in the notices differ from each other, the latest of such dates).

(10) A local planning authority must send a copy of a draft local development order and the statement of reasons relating to that order, including any modifications made to the order or statement, to the Welsh Ministers at any time after the authority have complied with the requirements of paragraph (9).

(11) Subject to paragraph (12), a local planning authority must not take any further steps in connection with the adoption of a local development order until either—

- (a) the Welsh Ministers have notified the authority in writing that the Welsh Ministers do not intend to make a direction under section 61B(1) of the 1990 Act (intervention by Welsh Ministers)(1); or
- (b) a period of 21 days has elapsed from the date on which the draft was sent to the Welsh Ministers and the Welsh Ministers have not notified the authority that the Welsh Ministers intend to make such a direction or require more time to reach a decision.

(12) If, within the period of 21 days referred to in paragraph (11)(b), the Welsh Ministers have notified the local planning authority that the Welsh Ministers require more time to reach a decision, the authority must not take any further steps in connection with the

(1) Mewnosodwyd adran 61B gan adran 40(1) o Ddeddf 2004.

(1) Section 61B was inserted by section 40(1) of the 2004 Act.

ynglŷn â mabwysiadu'r gorchymyn oni fydd Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r awdurdod fel a grybwyllir ym mharagraff (11)(a).

(13) Rhaid peidio â gwneud gorchymyn datblygu lleol a fyddai'n rhoi caniatâd cynllunio—

- (a) ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig; neu
- (b) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad AEA.

(14) Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn dirymu gorchymyn datblygu lleol rhaid i'r awdurdod—

- (a) cyhoeddi datganiad ar ei wefan bod y gorchymyn datblygu lleol wedi ei ddirymu;
- (b) rhoi hysbysiad o'r dirymiad drwy hysbysebu yn lleol; ac
- (c) rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r dirymiad i bob person y bu'r awdurdod yn ymgynghori ag ef o dan baragraffau (3) neu (4) cyn gwneud y gorchymyn.

(15) Yn yr erthygl hon—

- (a) mae gofyniad i roi hysbysiad drwy hysbysebu yn lleol yn ofyniad i gyhoeddi'r hysbysiad mewn cynifer o bapurau newydd ag y bo angen er mwyn sicrhau bod y sylw a roddir yn y wasg (yn ei gyfanrwydd) yn ymestyn i'r cyfan o'r ardal y mae'r gorchymyn datblygu lleol yn ymwneud â hi; a
- (b) mae i "adeilad rhestredig" yr ystyr a roddir i "listed building" yn adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (rhestru adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig)(1).

Tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad

28.—(1) Rhaid i gais am dystysgrif o dan adran 191(1) neu 192(1) o Ddeddf 1990 (tystysgrifau cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol neu arfaethedig)(2) gael ei wneud ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith), ac yn ychwanegol at bennu'r tir a disgrifio'r defnydd, gweithrediadau neu fater arall dan sylw yn unol â'r adrannau hynny, rhaid cynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt yn y ffurflen.

(2) Rhaid i gais y mae paragraff (1) yn gymwys iddo gael ei gyflwyno ynghyd ag—

- (a) plan sy'n galluogi adnabod y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, sydd wedi ei luniadu wrth raddfa ddynodedig ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd;
- (b) pa bynnag dystiolaeth y gall y ceisydd ei darparu ar gyfer gwirio'r wybodaeth a

adoption of the order unless the Welsh Ministers notify the authority as referred to in paragraph (11)(a).

(13) A local development order must not be made so as to grant planning permission—

- (a) for development affecting a listed building; or
- (b) for development which is EIA development.

(14) Where a local planning authority revokes a local development order the authority must—

- (a) publish on their website a statement that the local development order has been revoked;
- (b) give notice of the revocation by local advertisement; and
- (c) give written notice of the revocation to every person whom the authority consulted under paragraphs (3) or (4) before the making of the order.

(15) In this article—

- (a) a requirement to give notice by local advertisement is a requirement to publish the notice in as many newspapers as necessary to secure that the press coverage (taken as a whole) extends to the whole of the area to which the local development order relates; and
- (b) "listed building" ("*adeilad rhestredig*") has the meaning given in section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (listing of buildings of special architectural or historic interest)(1).

Certificate of lawful use or development

28.—(1) An application for a certificate under section 191(1) or 192(1) of the 1990 Act (certificates of lawfulness of existing or proposed use or development)(2) must be made on a form published by the Welsh Ministers (or a form substantially to the like effect) and must, in addition to specifying the land and describing the use, operations or other matter in question in accordance with those sections, include the particulars specified or referred to in the form.

(2) An application to which paragraph (1) applies must be accompanied by—

- (a) a plan identifying the land to which the application relates drawn to an identified scale and showing the direction of north;
- (b) such evidence verifying the information included in the application as the applicant can

(1) 1990 p.9.

(2) Amnewidiwyd adrannau 191 a 192 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34), adran 10(1).

(1) 1990 c.9.

(2) Sections 191 and 192 were substituted by the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) section 10(1).

gynhwysir yn y cais; ac

- (c) datganiad sy'n nodi buddiant y ceisydd yn y tir, enw a chyfeiriad unrhyw berson arall y gŵyr y ceisydd fod ganddo fuddiant yn y tir, a pha un a hysbyswyd y person hwnnw o'r cais ai peidio.

(3) Pan wneir cais am dystysgrif o dan adran 192(1) o Ddeddf 1990 mewn perthynas â thir y Goron, rhaid ei gyflwyno ynghyd â'r canlynol, yn ogystal â'r dogfennau sy'n ofynnol gan baragraff (2)—

- (a) datganiad y gwneir y cais mewn perthynas â thir y Goron; a
- (b) os gwneir y cais gan berson a awdurdodwyd mewn ysgrif gan yr awdurdod priodol, copi o'r awdurdodiad hwnnw.

(4) Pan fo cais o'r fath yn pennu dau neu ragor o fathau o ddefnydd, gweithrediadau neu faterion eraill, rhaid i'r plan a gyflwynir ynghyd â'r cais ddynodi â pha ran o'r tir y mae pob math o ddefnydd, gweithrediad neu fater arall yn ymwneud.

(5) Pan wneir cais gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, mae darpariaethau erthygl 32 yn gymwys.

(6) Mae erthyglau 8(1) a 22(5) yn gymwys i gais am dystysgrif y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, fel y maent yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio.

(7) Pan fo'r awdurdod cynllunio lleol wedi cael cais sy'n cydymffurfio â gofynion paragraffau (1) i (4) ac unrhyw ffi y mae'n ofynnol ei thalu mewn perthynas â'r cais wedi ei chyflwyno, rhaid i'r awdurdod, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfon at y ceisydd i gydnabod y cais yn y termau a bennir yn Atodlen 1 (neu dermau o'r un sylwedd).

(8) Os yw'r awdurdod cynllunio lleol, ar ôl anfon cydnabyddiaeth fel sy'n ofynnol gan baragraff (7), o'r farn bod y cais yn annilys, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod y cais yn annilys.

(9) Caiff yr awdurdod cynllunio lleol drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol bod y ceisydd yn darparu pa bynnag wybodaeth bellach a bennir gan yr awdurdod i'w alluogi i ymdrin â'r cais.

(10) Pan fo cais dilys wedi dod i law, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i'r ceisydd o fewn—

- (a) y cyfnod o wyth wythnos sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y daeth y cais i law'r awdurdod; neu
- (b) oni fydd y ceisydd eisoes wedi rhoi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru, o fewn pa bynnag gyfnod estynedig a gytunir mewn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod.

(11) At y diben o gyfrifo'r cyfnod priodol a bennir ym mharagraff (10), pan fo unrhyw ffi sy'n ofynnol wedi ei thalu â siec, a'r siec honno wedi ei dychwelyd

provide; and

- (c) a statement setting out the applicant's interest in the land, the name and address of any other person known to the applicant to have an interest in the land and whether any such other person has been notified of the application.

(3) Where an application for a certificate under section 192(1) of the 1990 Act is made in respect of Crown land, it must, in addition to the documents required by paragraph (2), be accompanied by—

- (a) a statement that the application is made in respect of Crown land; and
- (b) where the application is made by a person authorised in writing by the appropriate authority, a copy of that authorisation.

(4) Where such an application specifies two or more uses, operations or other matters, the plan which accompanies the application must indicate to which part of the land each such use, operation or matter relates.

(5) Where an application is made using electronic communications the provisions of article 32 apply.

(6) Articles 8(1) and 22(5) apply to an application for a certificate to which paragraph (1) applies as they apply to an application for planning permission.

(7) When the local planning authority receive an application which complies with the requirements of paragraphs (1) to (4) and any fee required to be paid with respect to the application is lodged, they must, as soon as reasonably practicable, send to the applicant an acknowledgement of the application in the terms (or substantially in the terms) set out in Schedule 1.

(8) Where, after sending an acknowledgement as required by paragraph (7), the local planning authority consider that the application is invalid they must, as soon as reasonably practicable, notify the applicant that the application is invalid.

(9) The local planning authority may by notice in writing require the applicant to provide such further information as may be specified to enable them to deal with the application.

(10) Where a valid application has been received, the local planning authority must give the applicant written notice of their decision within—

- (a) the period of eight weeks beginning with the day the application is received by the authority; or
- (b) unless the applicant has already given notice of appeal to the Welsh Ministers within such extended period as may be agreed in writing between the applicant and the authority.

(11) For the purpose of calculating the appropriate period specified in paragraph (10) where any fee required has been paid by a cheque which is

wedyn heb ei thalu, rhaid diystyru'r cyfnod rhwng y dyddiad y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y ceisydd bod y siec wedi ei dychwelyd heb ei thalu a'r dyddiad y bodlonir yr awdurdod ei fod wedi cael swm llawn y ffi.

(12) Yn yr erthygl hon, ystyr "cais dilys" ("*valid application*") yw cais—

- (a) sy'n cydymffurfio â gofynion paragraffau (1) i (4); a
- (b) a gyflwynir ynghyd â'r ffi y mae'n ofynnol ei thalu mewn perthynas â'r cais ac at y diben hwn rhaid ystyried bod cyflwyno siec am swm y ffi yn gyfystyr â thalu,

a rhaid ystyried bod cais dilys wedi ei gael os yw'r cais a'r holl ddogfennau, manylion neu dystiolaeth y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) i (4), ac unrhyw ffi sy'n ofynnol, wedi eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

(13) Os gwrthodir cais, yn gyfan gwbl neu'n rhannol (gan gynnwys achos pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn addasu'r disgrifiad o'r math o ddefnydd, y gweithrediadau neu fater arall yn y cais, neu'n rhoi disgrifiad amgen yn lle'r disgrifiad hwnnw), rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad ddatgan yn eglur a manwl y rhesymau llawn dros benderfyniad yr awdurdod a rhaid iddo gynnwys datganiad i'r perwyl y caiff y ceisydd, os tramgwyddir ef gan y penderfyniad, apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 195 o Ddeddf 1990 (apelau yn erbyn gwrthodiad neu fethiant i roi penderfyniad ar gais)(1).

(14) Rhaid i dystysgrif o dan adran 191 neu 192 o Ddeddf 1990 fod yn y ffurf a bennir yn Atodlen 7, neu ffurf sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith.

(15) Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu dirymu tystysgrif a ddyroddwyd o dan adran 191 neu 192 o Ddeddf 1990 yn unol ag adran 193(7) o Ddeddf 1990 (tystysgrifau o dan adrannau 191 a 192: darpariaethau atodol)(2), rhaid iddo, cyn dirymu'r dystysgrif, roi hysbysiad o'r bwriad hwnnw i—

- (a) perchennog y tir yr effeithir arno;
- (b) meddiannydd y tir yr effeithir arno;
- (c) unrhyw berson arall yr effeithir arno gan y dirymiad, ym marn yr awdurdod; ac
- (ch) yn achos tystysgrif a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 195 o Ddeddf 1990, Gweinidogion Cymru.

subsequently dishonoured, the period between the date when the local planning authority send the applicant written notice of the dishonouring of the cheque and the date when the authority are satisfied that they have received the full amount of the fee must be disregarded.

(12) In this article, "valid application" ("*cais dilys*") means an application which—

- (a) complies with the requirements of paragraphs (1) to (4); and
- (b) is accompanied by the fee required to be paid in respect of the application and, for this purpose, lodging a cheque for the amount of the fee is to be taken as payment,

and a valid application must be taken to have been received when the application and all of the documents, particulars or evidence referred to in paragraphs (1) to (4) and any fee required have been lodged with the local planning authority.

(13) Where an application is refused, in whole or in part (including a case in which the local planning authority modify the description of the use, operations or other matter in the application or substitute an alternative description for that description), the notice of decision must state clearly and precisely the authority's full reasons for their decision and must include a statement to the effect that if the applicant is aggrieved by the decision the applicant may appeal to the Welsh Ministers under section 195 of the 1990 Act (appeals against refusal or failure to give decision on application)(1).

(14) A certificate under section 191 or 192 of the 1990 Act must be in the form set out in Schedule 7, or in a form substantially to the like effect.

(15) Where a local planning authority propose to revoke a certificate issued under section 191 or 192 of the 1990 Act in accordance with section 193(7) of the 1990 Act (certificates under sections 191 and 192: supplementary provisions)(2), they must, before they revoke the certificate, give notice of that proposal to—

- (a) the owner of the land affected;
- (b) the occupier of the land affected;
- (c) any other person who will in their opinion be affected by the revocation; and
- (d) in the case of a certificate issued by the Welsh Ministers under section 195 of the 1990 Act, the Welsh Ministers.

(1) Diwygiwyd adran 195 gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) a pharagraff 32 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 197 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p.29) a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(2) Amnewidiwyd adran 193 gan adran 10(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991.

(1) Section 195 was amended by section 32 of, and paragraph 32 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) and section 197 of, and paragraphs 1 and 3 to Schedule 11 to, the Planning Act 2008 (c.29).

(2) Section 193 was substituted by section 10(1) of the Planning and Compensation Act 1991.

(16) Rhaid i hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff (15) wahodd y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo i wneud sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â'r bwriad, o fewn 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, a rhaid i'r awdurdod beidio â dirymu'r dystysgrif cyn bod pob cyfnod o'r fath a ganiateir ar gyfer gwneud sylwadau wedi dod i ben.

(17) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw ddirymiad o dan adran 193(7) o Ddeddf 1990 i bob person y cyflwynwyd hysbysiad o'r bwriad i ddirymu iddo o dan baragraff (15).

(16) A notice issued under paragraph (15) must invite the person on whom the notice is served to make representations on the proposal to the local planning authority within 14 days of service of the notice and the authority must not revoke the certificate until all such periods allowed for making representations have expired.

(17) A local planning authority must give written notice of any revocation under section 193(7) of the 1990 Act to every person on whom notice of the proposed revocation was served under paragraph (15).

RHAN 7

Monitro

Cofrestr o geisiadau a gorchmynion datblygu lleol

29.—(1) Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol gadw cofrestr, mewn tair Rhan, o bob cais am ganiatâd cynllunio a phob gorchmyn datblygu lleol (os oes un) sy'n ymwneud â'i ardal.

(2) Rhaid i'r rhan gyntaf o'r gofrestr ("Rhan 1") gynnwys, mewn perthynas â phob cais am ganiatâd cynllunio, ac unrhyw gais a wnaed am gymeradwyaeth i faterion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â chaniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd ynglŷn â chais o'r fath, a wnaed i'r awdurdod cynllunio lleol neu a anfonwyd ato ac nas penderfynwyd yn derfynol—

- (a) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o'r cais ynghyd ag unrhyw blaniau a lluniadau a gyflwynwyd gydag ef;
- (b) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278, arfaethedig neu'r ymunwyd ynddi neu ynddo eisoes, mewn cysylltiad â'r cais;
- (c) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 arall, yr ymunwyd ynddi neu ynddo eisoes, mewn perthynas â'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef ac a ystyrir yn berthnasol gan y ceisydd; ac
- (ch) manylion o unrhyw addasiad i unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 a gynhwyswyd yn Rhan 1 yn unol ag is-baragraffau (b) ac (c) uchod.

(3) Rhaid i'r ail ran o'r gofrestr ("Rhan 2") gynnwys, mewn perthynas â phob cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas ag ardal yr awdurdod cynllunio lleol—

- (a) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o'r cais ac o'r planiau a'r lluniadau a gyflwynwyd mewn perthynas ag ef ac o

PART 7

Monitoring

Register of applications and local development orders

29.—(1) Each local planning authority must keep a register in three Parts of every application for planning permission and every local development order (if any) relating to their area.

(2) The first part ("Part 1") of the register must contain in respect of every application for planning permission and any application for approval of reserved matters made in respect of an outline planning permission granted on such an application, made or sent to the local planning authority and not finally disposed of—

- (a) a copy (which may be photographic or in electronic form) of the application together with any accompanying plans and drawings;
- (b) a copy (which may be photographic or in electronic form) of any planning obligation or section 278 agreement proposed or entered into in connection with the application;
- (c) a copy (which may be photographic or in electronic form) of any other planning obligation or section 278 agreement entered into in respect of the land the subject of the application which the applicant considers relevant; and
- (d) particulars of any modification to any planning obligation or section 278 agreement included in Part 1 in accordance with sub-paragraphs (b) and (c) above.

(3) The second part ("Part 2") of the register must contain, in respect of every application for planning permission relating to the local planning authority's area—

- (a) a copy (which may be photographic or in electronic form) of the application and of plans and drawings submitted in relation thereto and

unrhyw ddatganiad dylunio a mynediad a ddarparwyd ynghyd ag ef yn unol ag erthygl 7;

- (b) manylion o unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd o dan Ddeddf 1990 neu'r Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r cais;
- (c) penderfyniad yr awdurdod, os gwnaed un, mewn perthynas â'r cais, gan gynnwys manylion o unrhyw amodau y rhoddwyd caniatâd yn ddarostyngedig iddynt, dyddiad y cyfryw benderfyniad ac enw'r awdurdod;
- (ch) rhif cyfeirnod, dyddiad ac effaith unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cais, pa un ai ar apêl, ar gais o dan adran 293A(2) o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: gwneud cais)(1) neu ar atgyfeiriad o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol)(2);
- (d) dyddiad unrhyw gymeradwyaeth ddilynol (pa un ai cymeradwyaeth i faterion a gadwyd yn ôl neu unrhyw gymeradwyaeth ofynnol arall) a roddwyd mewn perthynas â'r cais;
- (dd) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 yr ymunwyd ynddi neu ynddo mewn cysylltiad ag unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod neu gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cais;
- (e) copi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 arall a gymerwyd i ystyriaeth gan yr awdurdod neu gan Weinidogion Cymru wrth wneud y penderfyniad; ac
- (f) manylion o unrhyw addasiad i unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278, neu unrhyw ryddhad o rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278, a gynhwyswyd yn Rhan 2 yn unol ag is-baragraffau (dd) neu (e) neu baragraff (4).

(4) Yn dilyn unrhyw apêl i Weinidogion Cymru o dan adran 174 o Ddeddf 1990 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi)(3), os ystyrir bod yr apelydd wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio a Gweinidogion Cymru wedi rhoi caniatâd cynllunio, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, ar ôl cael hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru, gofnodi yn Rhan 2 fanylion o'r datblygiad dan sylw, y tir y cyflawnwyd y datblygiad arno, a dyddiad ac effaith penderfyniad Gweinidogion

of any accompanying design and access statement provided in accordance with article 7;

- (b) particulars of any direction given under the 1990 Act or this Order in respect of the application;
- (c) the decision, if any, of the authority in respect of the application, including details of any conditions subject to which permission was granted, the date of such decision and the name of the authority;
- (d) the reference number, the date and effect of any decision of the Welsh Ministers in respect of the application, whether on appeal, on an application under section 293A(2) of the 1990 Act (urgent Crown development: application)(1) or on a reference under section 77 of the 1990 Act (reference of applications to Secretary of State)(2);
- (e) the date of any subsequent approval (whether approval of reserved matters or any other approval required) given in relation to the application;
- (f) a copy (which may be photographic or in electronic form) of any planning obligation or section 278 agreement entered into in connection with any decision of the authority or the Welsh Ministers in respect of the application;
- (g) a copy (which may be photographic or in electronic form) of any other planning obligation or section 278 agreement taken into account by the authority or the Welsh Ministers when making the decision; and
- (h) particulars of any modification to or discharge of any planning obligation or section 278 agreement included in Part 2 in accordance with sub-paragraphs (f) or (g) or paragraph (4).

(4) Where, on any appeal to the Welsh Ministers under section 174 of the 1990 Act (appeal against enforcement notice)(3), the appellant is deemed to have made an application for planning permission and the Welsh Ministers have granted permission, the local planning authority must, on receipt of notification of the Welsh Ministers' decision, enter into Part 2 particulars of the development concerned, the land on which it was carried out, and the date and effect of the

(1) Mewnosodwyd adran 293A gan adran 82(1) o Ddeddf 2004.

(2) Diwygiwyd adran 77 gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) a pharagraff 18 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 40(2)(d) o Ddeddf 2004.

(3) Diwygiwyd adran 174 gan adran 6 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) ac O.S. 2004/3156 (Cy.273).

(1) Section 293A was inserted by section 82(1) of the 2004 Act.

(2) Section 77 was amended by section 32 of, and paragraph 18 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c.34), and section 40(2)(d) of the 2004 Act.

(3) Section 174 was amended by section 6 of the the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) and S.I. 2004/3156 (W.273).

Cymru ynghyd â chopi (a gaiff fod mewn ffurf ffotograffig neu electronig) o—

- (a) unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 yr ymunwyd ynddi neu ynddo mewn cysylltiad â'r penderfyniad; a
- (b) unrhyw rwymedigaeth gynllunio neu gytundeb adran 278 arall a gymerwyd i ystyriaeth neu gan Weinidogion Cymru wrth wneud y penderfyniad.

(5) Rhaid i drydedd rhan y gofrestr gynnwys dwy adran—

- (a) rhaid i'r adran gyntaf gynnwys copiâu o orchymynion datblygu lleol drafft sydd wedi eu paratoi ond heb eu mabwysiadu gan yr awdurdod cynllunio lleol; a
- (b) rhaid i'r ail adran gynnwys—
 - (i) copiâu o orchymynion datblygu lleol sydd wedi eu mabwysiadu gan yr awdurdod;
 - (ii) manylion am ddirymu unrhyw orchymyn datblygu lleol a wnaed gan yr awdurdod, gan gynnwys y dyddiad y daeth y dirymiad i rym; a
 - (iii) manylion am ddiwygio unrhyw orchymyn datblygu lleol, gan gynnwys y dyddiad y daeth y diwygiad i rym.

(6) Rhaid gosod copi o bob gorchymyn datblygu lleol drafft ar y gofrestr pan anfonir y drafft ar gyfer ymgynghori yn unol ag erthygl 27.

(7) Rhaid gosod copi o bob gorchymyn datblygu lleol ar y gofrestr o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad ei fabwysiadu.

(8) Mae gofyniad i osod copi o orchymyn datblygu lleol drafft neu orchymyn datblygu lleol a fabwysiadwyd ar y gofrestr yn cynnwys gofyniad i osod ar y gofrestr y datganiad o resymau dros wneud y gorchymyn hwnnw.

(9) Rhaid i'r gofrestr gynnwys hefyd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob cais am dystysgrif o dan adran 191 neu 192 o Ddeddf 1990 (tystysgrifau o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol neu arfaethedig) sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod cynllunio lleol—

- (a) enw a chyfeiriad y ceisydd;
- (b) dyddiad y cais;
- (c) cyfeiriad neu leoliad y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
- (ch) disgrifiad o'r defnydd, gweithrediadau neu fater arall a gynhwysir yn y cais;
- (d) penderfyniad, os gwnaed un, yr awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â'r cais, a dyddiad y cyfryw benderfyniad; ac
- (dd) rhif cyfeirnod, dyddiad ac effaith unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru ar apel mewn perthynas â'r cais.

Welsh Ministers' decision together with a copy (which may be photographic or in electronic form) of—

- (a) any planning obligation or section 278 agreement entered into in connection with the decision; and
- (b) any other planning obligation or section 278 agreement taken into account by the Welsh Ministers when making the decision.

(5) The third part of the register must consist of two sections—

- (a) the first section must contain copies of draft local development orders which have been prepared but not adopted by the local planning authority; and
- (b) the second section must contain—
 - (i) copies of local development orders which have been adopted by the authority;
 - (ii) particulars of the revocation of any local development order made by the authority, including the date on which the revocation took effect; and
 - (iii) particulars of the revision of any local development order, including the date on which the revision took effect.

(6) A copy of each draft local development order must be placed on the register when the draft is sent for consultation in accordance with article 27.

(7) A copy of each local development order must be placed on the register within 14 days of the date of its adoption.

(8) A requirement to place a copy of a draft local development order or adopted local development order on the register includes a requirement to place on the register the statement of reasons for making that order.

(9) The register must also contain the following information in respect of every application for a certificate under section 191 or 192 of the 1990 Act (certificates of lawfulness of existing or proposed use or development) relating to the local planning authority's area—

- (a) the name and address of the applicant;
- (b) the date of the application;
- (c) the address or location of the land to which the application relates;
- (d) the description of the use, operations or other matter included in the application;
- (e) the decision, if any, of the local planning authority in respect of the application and the date of such decision; and
- (f) the reference number, date and effect of any decision of the Welsh Ministers on an appeal in respect of the application.

(10) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth ganlynol ynghylch cynlluniau parth cynllunio syml yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol—

- (a) manylion cryno am unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod neu gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 83 o Ddeddf 1990 neu Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (gwneud cynlluniau parthau cynllunio syml etc)(1) i sefydlu neu gymeradwyo unrhyw gynllun parth cynllunio syml, gan gynnwys dyddiad y mabwysiadu neu'r cymeradwyo, y dyddiad y daeth y cynllun neu'r newid yn weithredol, a'r dyddiad y mae'n peidio â bod yn weithredol;
- (b) copi o unrhyw gynllun parth cynllunio syml, neu unrhyw newid mewn cynllun presennol, gan gynnwys unrhyw ddiagramau, lluniau, deunydd disgrifiadol neu unrhyw ddeunydd arall a ragnodir sydd wedi ei roi ar gael i'w archwilio o dan Atodlen 7 i Ddeddf 1990; ac
- (c) map mynegeiol sy'n dangos ffin unrhyw gynlluniau parth cynllunio syml gweithredol neu arfaethedig, gan gynnwys addasiadau i gynlluniau presennol pan fo'n briodol, ynghyd â chyfeiriad at y cofnodion yn y gofrestr o dan is-baragraffau (a) a (b).

(11) Er mwyn galluogi unrhyw berson i olrhain unrhyw gofnod yn y gofrestr, rhaid i bob cofrestr gynnwys mynegai, ynghyd â mynegai ar wahân o geisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys gweithrediadau mwyngloddio neu greu dyddodion o weithfeydd mwynau.

(12) Yn ddarostyngedig i baragraff (13), rhaid gwneud pob cofnod yn y gofrestr o fewn 14 diwrnod ar ôl cael cais, neu ar ôl rhoi neu wneud y cyfarwyddyd perthnasol, y penderfyniad perthnasol neu'r gymeradwyaeth berthnasol, yn ôl fel y digwydd.

(13) Rhaid gosod copi o unrhyw gais a wneir o dan adran 293A(2) o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: gwneud cais), ac o unrhyw blaniau a lluniadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cais, ar y gofrestr o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad yr ymgynghorir â'r awdurdod cynllunio lleol gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r cais.

(14) Rhaid cadw'r cyfan o'r gofrestr ym mhrif swyddfa'r awdurdod cynllunio lleol, neu rhaid cadw'r rhan honno o'r gofrestr sy'n ymwneud â thir mewn rhan o ardal yr awdurdod hwnnw, mewn man sydd o fewn y rhan honno o'r ardal, neu sy'n gyfleus ar gyfer y rhan honno o'r ardal.

(15) At ddibenion paragraff (2), rhaid peidio â thrin cais fel pe bai wedi ei benderfynu yn derfynol oni fydd—

(10) The register must contain the following information about simplified planning zone schemes in the area of the local planning authority—

- (a) brief particulars of any action taken by the authority or the Welsh Ministers in accordance with section 83 of, or Schedule 7 to, the 1990 Act (making of simplified planning zone schemes etc)(1) to establish or approve any simplified planning zone scheme, including the date of adoption or approval, the date on which the scheme or alteration becomes operative and the date on which it ceases to be operative;
- (b) a copy of any simplified planning zone scheme, or alteration to an existing scheme, including any diagrams, illustrations, descriptive matter or any other prescribed material which has been made available for inspection under Schedule 7 to the 1990 Act; and
- (c) an index map showing the boundary of any operative or proposed simplified planning zone schemes, including alterations to existing schemes where appropriate, together with a reference to the entries in the register under sub-paragraphs (a) and (b).

(11) To enable any person to trace any entry in the register, every register must include an index together with a separate index of applications for development involving mining operations or the creation of mineral working deposits.

(12) Subject to paragraph (13), every entry in the register must be made within 14 days of the receipt of an application, or of the giving or making of the relevant direction, decision or approval as the case may be.

(13) A copy of any application made under section 293A(2) of the 1990 Act (urgent Crown development: application) and of any plans and drawings submitted in relation to it must be placed on the register within 14 days of the date on which the local planning authority is consulted on the application by the Welsh Ministers.

(14) The whole of the register must be kept at the principal office of the local planning authority or that part of the register which relates to land in part of that authority's area must be kept at a place within or convenient to that part.

(15) For the purposes of paragraph (2), an application must not be treated as finally disposed of unless—

(1) Gwnaed diwygiadau i adran 83 ac Atodlen 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(1) There are amendments to section 83 and Schedule 7 not relevant to this Order.

- (a) yr awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu (neu'r cyfnod priodol a ganiateir o dan erthygl 22 wedi dod i ben heb iddo roi penderfyniad) a'r cyfnod o chwe mis a bennir yn erthygl 26(2) wedi dod i ben heb i unrhyw apêl gael ei gwneud i Weinidogion Cymru;
- (b) y cais wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol) neu apêl wedi ei gwneud i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath)(1), Gweinidogion Cymru wedi dyroddi penderfyniad a'r cyfnod o chwe wythnos a bennir yn adran 288 o Ddeddf 1990 (achosion i herio dilysrwydd gorchmynion, penderfyniadau a chyfarwyddiadau eraill)(2) wedi dod i ben heb i unrhyw gais gael ei wneud i'r Uchel Lys o dan yr adran honno;
- (c) cais wedi ei wneud i'r Uchel Lys o dan adran 288 o Ddeddf 1990 a'r mater wedi ei benderfynu yn derfynol, naill ai drwy wrthod y cais yn derfynol gan lys, neu drwy ddiddymu penderfyniad Gweinidogion Cymru a dyroddi penderfyniad newydd (heb unrhyw gais pellach o dan yr adran 288 honno); neu
- (ch) y cais wedi ei dynnu'n ôl cyn ei benderfynu gan yr awdurdod neu gan Weinidogion Cymru, yn ôl fel y digwydd, neu apêl wedi ei thynnu'n ôl cyn bo Gweinidogion Cymru wedi dyroddi eu penderfyniad.

(16) Pan fo'r gofrestr a gedwir gan awdurdod cynllunio lleol o dan yr erthygl hon yn cael ei chadw drwy ddefnyddio storio electronig, caiff yr awdurdod roi'r gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod at y diben hwnnw.

(17) Yn yr erthygl hon—

- (a) ystyr "rhwymedigaeth gynllunio" ("*planning obligation*") yw rhwymedigaeth yr ymunir ynddi drwy gytundeb neu fel arall gan unrhyw berson sydd â buddiant mewn tir yn unol ag adran 106 o Ddeddf 1990 (rhwymedigaethau cynllunio)(3); a

- (a) it has been decided by the local planning authority (or the appropriate period allowed under article 22 has expired without their giving a decision) and the period of six months specified in article 26(2) has expired without any appeal having been made to the Welsh Ministers;
- (b) if it has been referred to the Welsh Ministers under section 77 the 1990 Act (reference of applications to Secretary of State) or an appeal has been made to the Welsh Ministers under section 78 of the 1990 Act (right to appeal against planning decisions and failure to take such decisions)(1), the Welsh Ministers have issued a decision and the period of six weeks specified in section 288 of the 1990 Act (proceedings for questioning the validity of other orders, decisions and directions)(2) has expired without any application having been made to the High Court under that section;
- (c) an application has been made to the High Court under section 288 of the 1990 Act and the matter has been finally determined, either by final dismissal of the application by a court or by the quashing of the Welsh Ministers' decision and the issue of a fresh decision (without a further application under the said section 288); or
- (d) it has been withdrawn before being decided by the authority or the Welsh Ministers, as the case may be, or an appeal has been withdrawn before the Welsh Ministers have issued their decision.

(16) Where the register kept by a local planning authority under this article is kept using electronic storage, the authority may make the register available for inspection by the public on a website maintained by the authority for that purpose.

(17) In this article—

- (a) "planning obligation" ("*rhwymedigaeth gynllunio*") means an obligation entered into by agreement or otherwise by any person interested in land pursuant to section 106 of the 1990 Act (planning obligations)(3); and

(1) Diwygiwyd adran 78 gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) ac adrannau 40(2)(e) a 43(2) o Ddeddf 2004.

(2) Diwygiwyd 288 gan adran 18 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p.53), a pharagraff 25 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.

(3) Diwygiwyd adran 106 gan adran 12(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) ac adran 174 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Ni fwriedir ar hyn o bryd ddwyn i rym y diddymiad o adran 106 gan adran 120 o Ddeddf 2004 ac Atodlen 9 i'r Ddeddf honno.

(1) Section 78 was amended by section 17(2) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34) and sections 40(2)(e) and 43(2) of the 2004 Act.

(2) Section 288 was amended by section 18 of, and paragraph 25 of Schedule 3 to, the Tribunals and Inquiries Act 1992 (c.53).

(3) Section 106 was amended by section 12(1) of the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34) and section 174 of the Planning Act 2008 (c. 29). There is no intention at present to bring into force the repeal of section 106 by section 120 of, and Schedule 9 to, the 2004 Act.

- (b) ystyr "cytundeb adran 278" ("*section 278 agreement*") yw cytundeb yr ymunir ynddo yn unol ag adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (cytundebau ynglŷn â chyflawni gwaith)(1).

Cofrestr o hysbysiadau gorfodi ac atal

30.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r gofrestr o dan adran 188 o Ddeddf 1990 (cofrestr o hysbysiadau gorfodi ac atal)(2) gynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â phob hysbysiad gorfodi a ddyroddir mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol sy'n cynnal y gofrestr—

- (a) cyfeiriad y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu blân y gellir cyfeirio ato i ganfod lleoliad y tir;
- (b) enw'r awdurdod dyroddi;
- (c) dyddiad dyroddi'r hysbysiad;
- (ch) dyddiad cyflwyno copïau o'r hysbysiad;
- (d) datganiad neu grynodeb o'r toriad o reolaeth gynllunio a honnir, ac o ofynion yr hysbysiad, gan gynnwys y cyfnod a ganiateir ar gyfer cymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol;
